

Senedd Cymru

Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Bil Seilwaith (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1

Tachwedd 2023



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddHinsawdd@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddHinsawdd](https://twitter.com/SeneddHinsawdd)**

© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Bil Seilwaith (Cymru): Adroddiad Cyfnod 1

Tachwedd 2023



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddHinsawdd

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:
Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



Janet Finch-Saunders AS
Ceidwadwyr Cymreig



Huw Irranca-Davies AS
Llafur Cymru



Delyth Jewell AS
Plaid Cymru



Jenny Rathbone AS
Llafur Cymru



Joyce Watson AS
Llafur Cymru

Bu Heledd Fychan AS yn Gadeirydd Pwyllgor dros dro yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Heledd Fychan AS
Plaid Cymru

Cynnwys

Argymhelliad.....	5
1. Cyflwyniad.....	9
Cylch gorchwyl.....	9
Dull craffu'r pwyllgor.....	9
Gwaith craffu ar y Bil gan bwyllgorau eraill y Senedd.....	10
2. Egwyddorion cyffredinol y Bil	11
Tystiolaeth gan randdeiliaid.....	11
Tystiolaeth gan y Gweinidog	17
Ein barn ni.....	19
Argymhellion	22
3. Rhannau 1 a 2 - Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol a'r Gofyniad am Gydsyniad Seilwaith	24
Rhan 1 - Tystiolaeth gan randdeiliaid.....	24
Rhan 2 – Tystiolaeth gan randdeiliaid.....	28
Tystiolaeth gan y Gweinidog	30
Ein barn ni.....	31
Argymhellion	32
4. Rhan 3 - Gwneud Cais am Gydsyniad Seilwaith	34
Tystiolaeth gan randdeiliaid.....	34
Tystiolaeth gan y Gweinidog	37
Ein barn ni.....	38

Argymhellion	39
5. Rhannau 4 a 5 - Archwilio Ceisiadau a Phenderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith	40
Rhan 4 - Tystiolaeth gan randdeiliaid	40
Rhan 5 - Tystiolaeth gan randdeiliaid.....	42
Tystiolaeth gan y Gweinidog	49
Ein barn ni.....	51
Argymhellion	54
6. Rhannau 6 a 7 - Gorchmynion cydsyniad seilwaith a Gorfodi 56	
Rhan 6 - Tystiolaeth gan randdeiliaid	56
Rhan 7 - Tystiolaeth gan randdeiliaid.....	58
Tystiolaeth gan y Gweinidog	59
Ein barn ni.....	60
Argymhelliad	60
7. Rhannau 8 a 9 - Swyddogaethau Atodol a Darpariaethau Cyffredinol	61
Rhan 8 - Swyddogaethau Atodol.....	61
Tystiolaeth gan randdeiliaid.....	61
Tystiolaeth gan y Gweinidog	63
Ein barn ni.....	63
Argymhellion	64
Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar.	65
Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	67

Argymhelliad

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Senedd yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil..... Tudalen 22

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi amserlen fanwl ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Bil a, lle bo'n briodol, ar gyfer ymgynghori ar yr is-ddeddfwriaeth honno..... Tudalen 23

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi darnau allweddol o is-ddeddfwriaeth mewn drafft ac ymgynghori â rhanddeiliaid cyn bwrw ymlaen â'r fersiynau terfynol. Tudalen 23

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod digon o amser ar gael i bwyllgorau'r Senedd ystyried y darnau allweddol o is-ddeddfwriaeth yn y Bil a fydd yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol..... Tudalen 23

Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod fersiynau digidol o'r is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Bil, a chanllawiau a dogfennau cysylltiedig, ar gael mewn un man ar y rhyngwyd sy'n hawdd ei gyrchu i'r cyhoedd, cyrff cyhoeddus a datblygwyr. Tudalen 23

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog gyhoeddi amserlen ddangosol yn nodi pryd y penderfynir ar y trefniadau pontio i'r gyfundrefn newydd. Tudalen 23

Argymhelliad 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru a chy'rff cyhoeddus gydweithio i ddod o hyd i'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddarparu'r cyngor arbenigol sydd ei angen ar draws gwahanol leoliadau daearyddol. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd o fewn y 6 mis nesaf..... Tudalen 23

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y meini prawf yn Rhan 1 i ddatrys pryderon cyn i'r Bil gwblhau ei daith drwy'r Senedd. Tudalen 32

Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog egluro ei safbwynt ar gynnwys darpariaeth "optio i mewn" yn y gyfundrefn prosiectau seilwaith arwyddocaol ac esbonio a yw'n ystyried y gellid defnyddio'r pŵer yn adran 22 o'r Bil i hwyluso gweithdrefn o'r fath..... Tudalen 32

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog egluro pam nad meini prawf cysylltiedig yr meysydd yn adran 17 wedi eu cynnwys ar wyneb y Bil..... Tudalen 32

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 25 i fandadu cyhoeddi canllawiau mewn perthynas â'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio pwerau cyfarwyddo adran 22 neu 24..... Tudalen 32

Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 25 i bennu terfyn amser erbyn pryd y mae'n rhaid i'r Gweinidog ymateb i gais cymwys gan ddatblygwr am gyfarwyddyd o dan adran 22 neu 24..... Tudalen 33

Argymhelliad 13. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i roi mwy o eglurder mewn perthynas â phrosesau ymgynghori a chyhoeddusrwydd. Dylai'r Gweinidog ystyried darpariaethau Deddf Cynllunio 2008 fel man cychwyn.
..... Tudalen 39

Argymhelliad 14. Yn ei hymateb i'r Adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog nodi'r amserlenni ar gyfer gwneud rheoliadau o dan adran 30. O ystyried pa mor allweddol yw ymgynghoriad cyhoeddus i'r gyfundrefn newydd, dylai'r Gweinidog gyhoeddi'r rheoliadau drafft ac ymgynghori arnynt..... Tudalen 39

Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog gyhoeddi canllawiau i randdeiliaid ar arfer gorau a safonau disgwylidig ar gyfer ymgynghori â'r gymuned. Tudalen 39

Argymhelliad 16. Mewn ymateb i'r Adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog nodi'r amgylchiadau lle mae'n ystyried y gellid penderfynu ar gais drwy ymchwiliad.
..... Tudalen 54

Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i sicrhau mai Gweinidogion Cymru yw'r penderfynwyr diofyn ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol. Er gwaethaf hyn, dylai'r Gweinidog sicrhau bod y Bil yn cynnwys darpariaethau i alluogi Gweinidogion Cymru i gyfaryddo bod gan awdurdod archwilio y swyddogaeth o benderfynu ar y cais o dan amgylchiadau penodol penodedig. Dylai rheoliadau bennu'r meini prawf y mae'n rhaid eu cymhwysu wrth wneud cyfarwyddyd o'r fath..... Tudalen 54

Argymhelliad 18. Dylai'r Gweinidog gyhoeddi'r meini prawf ar gyfer penderfynu ar gyfarwyddyd o dan adran 52. Tudalen 54

Argymhelliad 19. Dylai'r Gweinidog esbonio pam yr oedd y mater o flaenoriaeth datganiadau polisi seilwaith dros gynlluniau cenedlaethol yn dal i gael ei ystyried ar ôl cyflwyno'r Bil.....Tudalen 54

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid i fynd i'r afael â phryderon am yr angen am ddatganiadau polisi seilwaith o dan adran 53 i lenwi bylchau polisi mewn cynlluniau cenedlaethol.....Tudalen 55

Argymhelliad 21. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i sicrhau bod datganiadau polisi seilwaith yn cael eu hystyried a'u cytuno gan y Senedd.
.....Tudalen 55

Argymhelliad 22. Pan fo Gweinidogion Cymru, yn unol ag adran 124, yn penderfynu dynodi dogfen yn ddatganiad polisi seilwaith at ddiben y Bil, dylai'r Gweinidog hysbysu'r Senedd. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod y Senedd wedi ystyried a chytuno ar y ddogfen cyn y gellir gwneud unrhyw ddynodiad o'r fath.
.....Tudalen 55

Argymhelliad 23. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i nodi ar wyneb y Bil amserlen fanwl ar gyfer y cyfnod o 52 wythnos ar gyfer penderfynu ar gais.
.....Tudalen 55

Argymhelliad 24. Dylai'r Gweinidog ymgynghori â rhanddeiliaid cyn gynted â phosibl i sicrhau bod yr amserlenni ar wyneb y Bil yn briodol. Os yw hi'n credu, o ganlyniad i'r ymgynghoriad, fod angen eu newid, gellir cyflawni hynny drwy is-ddeddfwriaeth.....Tudalen 55

Argymhelliad 25. Os yw'r Gweinidog yn penderfynu estyn y cyfnod o 52 wythnos yn unol ag adran 56(2), rhaid i'r Gweinidog hysbysu'r Senedd drwy ddatganiad ysgrifenedig. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i roi effaith i hyn.....Tudalen 55

Argymhelliad 26. Dylai'r Gweinidog nodi'r cymorth a fydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol pan fo angen cymryd camau gorfodi.Tudalen 60

Argymhelliad 27. Dylai'r Gweinidog ystyried a ddylai darpariaethau ar "bwerau clo" neu "padlock powers" fel y'u gelwir mewn perthynas â hysbysiadau stop dros dro gae eu cynnwys yn y Bil.....Tudalen 60

Argymhelliad 28. Dylai'r Gweinidog egluro mewn canllawiau y ffyrdd y gall y cyhoedd godi pryderon am ddatblygiad anawdurdodedig.....Tudalen 60

Argymhelliad 29. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y ddadl Cyfnod 1 ar drafodaethau ag ymgylgoreion, awdurdodau cynllunio lleol a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â sut y gellir adennill costau'n llawn.....Tudalen 64

Argymhelliad 30. Dylai'r Gweinidog esbonio ei dealltwriaeth o ystyr prosiect o "sylwedd gwirioneddol" a lefel y ddirwy y gellir ei rhoi am drosedd o dan yr adran hon.....Tudalen 64

1. Cyflwyniad

1. Ar 12 Mehefin 2023, cyflwynodd y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog), Julie James AS, y Bil Seilwaith (Cymru) (y Bil) i'r Senedd. Ar 13 Mehefin 2023, gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn.
2. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Bil at y Pwyllgor hwn ar gyfer craffu Cyfnod 1, a phennwyd 14 Gorffennaf 2023 fel dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r adroddiad.

Cylch gorchwyl

3. Nod y cylch gorchwyl oedd ystyried:
 - Egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth i gyflawni'r bwriad polisi a nodwyd.
 - Darpariaethau'r Bil, gan gynnwys a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd.
 - Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol).
 - A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil.
 - Goblygiadau ariannol y Bil (fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol).

Dull craffu'r pwyllgor

4. Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Mehefin ac Awst 2023 a chafwyd 49 o ymatebion. Roedd 44 o'r rhain gan sefydliadau a 5 gan unigolion.
5. Cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth lafar gyda'r Gweinidog ar 6 Gorffennaf ac 18 Hydref. Yn dilyn sesiwn 18 Hydref, gwnaethom ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn am ymateb ar faterion nas cyrhaeddwyd yn ystod y trafodion. Mae'r ohebiaeth hon ar gael ar wefan Senedd Cymru.

- 6.** Ar 1 Medi, ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor yn rhoi rhagor o wybodaeth dechnegol i helpu'r Pwyllgor i graffu ar y Bil.
- 7.** Cynhaliom gyfres o sesiynau tystiolaeth lafar gyda thystion allanol, gan gynnwys academyddion, cynrychiolwyr o awdurdodau cynllunio lleol, cyrff cynghori a chyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, grwpiau cymunedol, cymdeithasau seilwaith a chynllunio, datblygwyr o'r sector ynni a thrafnidiaeth, yn ogystal â sefydliadau amgylcheddol. Gellir gweld manylion y rhain ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

Cynghorydd arbenigol allanol

- 8.** O ystyried natur dechnegol y Bil, penderfynodd y Pwyllgor benodi cynghorydd arbenigol allanol, Mark Southgate¹, i'w gynorthwyo gyda'i waith craffu ar y Bil.
- 9.** Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i Mark Southgate am ei gymorth, sydd wedi bod yn amhrisiadwy wrth lywio trafodaethau a chasgliadau'r Pwyllgor.

Gwaith craffu ar y Bil gan bwyllgorau eraill y Senedd

- 10.** Clywodd Pwyllgor Cyllid a Phwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd dystiolaeth gan y Gweinidog ar eu meysydd priodol o ddiddordeb. Mae eu hadroddiadau i'w cael ar wefan Senedd Cymru.

¹ Ar hyn o bryd, Prif Swyddog Gweithredol **MOBIE (Ministry of Building Innovation and Education)**, elusen sy'n ceisio hyfforddi pobl ifanc i arloesi wrth ddylunio ac adeiladu tai. Mae wedi dal nifer o uwch rolau yn yr Arolygiaeth Gynllunio yn y gorffennol, gan gynnwys fel Cyfarwyddwr Gwaith Achos Mawr, yn gyfrifol am **Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol** (NSIPs). Cyn hyn, roedd Mr Southgate yn Bennaeth Cynllunio ac Asesu yn Asiantaeth yr Amgylchedd a Phennaeth Cynllunio yn yr RSPB. Mae wedi dal nifer o rolau Ymddiriedolwr/Aelod Bwrdd ac roedd yn feirniad yng Ngwobrau Cynllunio 2023.

2. Egwyddorion cyffredinol y Bil

11. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, mae'r Bil yn sefydlu "proses gydsynio unedig ar gyfer datblygu seilwaith yng Nghymru ac yn nyfroedd Cymru, gan ddisodli sawl cyfundrefn statudol. Gelwir y math newydd o gydsyniad yn 'Gydsyniad Seilwaith' ("CS") a bydd yn cael ei roi mewn perthynas â phrosiectau a ragnodir fel 'Prosiect Seilwaith Arwyddocaol' ("PSA)". Bwriad y Cydsyniad Seilwaith yw "cynnwys yr amrywiaeth lawn o awdurdodiadau sy'n ofynnol i alluogi'r datblygiad i fynd rhagddo".

12. Dywedodd y Gweinidog wrth y Senedd mewn datganiad llafar yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Mehefin bod y Bil wedi'i ddatblygu gyda thri nod allweddol mewn golwg:

- Sicrhau proses syml ac unedig. Bydd hyn yn galluogi datblygwyr i gael mynediad i siop un stop, lle gellir cael caniatadau, cydsyniadau, trwyddedau a gofynion eraill, a roddir ar hyn o bryd o dan wahanol gyfundrefnau cydsynio, fel un pecyn.
- Cynnig proses dryloyw, drylwyr a chyson, a fydd yn caniatáu i gymunedau ddeall a chymryd rhan yn well mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Ymdrin â heriau'r dyfodol mewn modd amserol drwy fod yn ddigon hyblyg i gynnwys technolegau newydd a datblygol, yn ogystal ag unrhyw bwerau cydsynio pellach a allai gael eu datganoli i Gymru.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

13. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranwyr yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil ac yn cytuno bod angen proses gydsynio unedig. Tynnodd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) yng Nghymru sylw at y ffaith ei fod wedi bod yn galw ers amser maith :

"... for a regulatory framework to enable an effective infrastructure consenting regime ... on large infrastructure projects, providing structure and clarity...The recent rise in renewable energy applications on the Developments of

National Significance (DNS) register is one indicator of the increasing volume of infrastructure applications coming down the line.”

14. Awgrymodd Wales and West Utilities nad yw'r broses bresennol ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn addas i'r diben a'i bod yn rhoi Cymru o dan anfantais o gymharu â rhannau eraill o'r DU. Roedd Cyngor Sir Ynys Môn o'r farn bod y broses bresennol yn hir ac yn aneffeithlon, gan greu ansicrwydd o ran cael cydsyniad ar gyfer prosiectau a'u cyflawni.

15. Roedd y Gymdeithas Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol (NIPA) yn optimistaidd bod gan y gyfundrefn newydd y potensial i fynd i'r afael â llawer o'r heriau a brofir gyda'r cyfundrefnau cydsynio presennol yng Nghymru, ond rhybuddiodd:

“At the outset, we would wish to emphasise that in order to realise the benefits of a unified consenting process, proper consideration must be given to addressing some of the systemic challenges of existing consenting processes, including the Planning (Wales) Act 2015 developments of national significance (DNS) and Planning Act 2008 development consent order regimes. Recent experience of both the DNS and DCO consenting regimes is that there is an increasing elongation of the validation, pre-examination, examination and determination stages, driven in part by inadequate and/or out-of-date national policy and a lack of resources and/or substantive engagement by consultees.”

Trefniadau pontio

16. Roedd yr angen am eglurder ynghylch y pontio i'r gyfundrefn newydd yn thema a gododd dro ar ôl tro.

17. Tynnodd Kelvin MacDonald, Prifysgol Caergrawnt, sylw at bwysigrwydd sicrhau bod canllawiau clir ar y broses newydd ar waith cyn rhoi'r gyfundrefn newydd ar waith. Mynegodd Steve Ball, Cyngor Caerdydd, bryderon am absenoldeb gwybodaeth fanwl am y cyfnod pontio. Roedd yn cyd-fynd â barn Cyngor Sir Ynys Môn y dylai gwaith cyn gwneud cais a wnaed eisoes cyn

gweithredu'r gyfundrefn newydd barhau'n ddilys. Adleisiwyd hyn gan Peter Morris, Cyngor Sir Powys, a phwysleisiodd yr angen am ddull pragmatig o ymdrin â phrosiectau o'r fath. Pwysleisiodd James Good, NIPA, yr angen am bwynt terfyn clir a meini prawf ar gyfer pennu sut y gallai prosiectau bontio rhwng cyfundrefnau.

18. Cynigiodd Steve Brooks, Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, y dylai Llywodraeth Cymru roi amlinelliad clir o'r broses bontio. Cytunodd Eleri Davies, NIPA, yn enwedig gan y byddai'r trothwy ar gyfer prosiectau sy'n ymwneud ag ynni yn cael ei newid o 10 MW i 50 MW. Gofynnodd hefyd am eglurder ynghylch pa agweddau ar brosiectau sydd eisoes ar y gweill, megis cwmpasu ac ymgynghori, fyddai'n parhau i fod yn ddilys o dan y fframwaith newydd.

19. Pwysleisiodd Hannah Hickman, Prifysgol Gorllewin Lloegr, yr angen am eglurder ar y pontio i'r gyfundrefn newydd, yn enwedig o ystyried y cyfyngiadau o ran adnoddau o fewn awdurdodau cynllunio lleol. Ymhelaethodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ar y pwynt hwn. Roeddent yn credu bod cyfnod pontio wedi'i reoli yn hanfodol, gan esbonio'r canlynol:

"some Local Authorities, as well as PEDW [Planning and Environment Decisions Wales], are already being put under significant pressure by Development of National Significance projects as applicants look to escalate projects and there is the real prospect that the number of DNS applications combined with SIP applications cannot be adequately supported by Local Authorities. Consideration should be given to validation requirements and potentially to a prioritisation system for potential SIP applications in order to ensure limited resources are used and managed in the most effective way."

Cynnwys darpariaethau ar wyneb y Bil

20. Cwestiynodd llawer o randdeiliaid a oedd Llywodraeth Cymru wedi taro'r cydbwysedd cywir rhwng cynnwys darpariaethau ar wyneb y Bil ac mewn is-ddeddfwriaeth. Derbyniodd Kelvin MacDonald yr angen am is-ddeddfwriaeth, ond cyfeiriodd at 35 o achosion yn y Bil lle byddai darpariaethau manwl yn cael eu cynnwys mewn rheoliadau. Roedd hyn yn teimlo'n ormodol. Yn wir,

dywedodd Bute Energy mai un o brif fethiannau'r Bil yw lefel y manylion sydd wedi'u gadael ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

21. Cydnabu Lisa Phillips, CNC, fanteision yr hyblygrwydd a ddarperir drwy ddefnyddio is-ddeddfwriaeth, yn enwedig o ystyried natur newidiol y maes polisi hwn. Teimlai Dr Roisin Willmott, RTPI Cymru, a James Davies, Cymorth Cynllunio Cymru, fod y cydbwysedd yn dderbyniol ond dywedodd y ddau bod ymgysylltu â rhanddeiliaid ar yr is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Bil yn hollbwysig. Adleisiwyd hyn gan Sara Morris, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ac Annie Smith, RSPB Cymru.

22. Cydnabu Dr David Clubb, Cadeirydd Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, ei bod yn anodd cael y cydbwysedd cywir. Rhannodd adborth gan randdeiliaid seilwaith a oedd yn teimlo bod angen mwy o fanylion yn y Bil ar rai materion, megis amserlenni. Ychwanegodd Steve Brooks, CSCC, y dylai elfennau hanfodol o'r fath gael eu nodi'n benodol yn y Bil yn hytrach na'u cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth. Roedd James Good, NIPA, hefyd yn cydnabod yr angen am hyblygrwydd ond cytunodd y dylai'r Bil fod yn glir ynghylch yr amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau.

23. Dywedodd Cymdeithas Porthladdoedd Prydain wrth y Pwyllgor:

"we understand that the Bill will be supported by secondary legislation, setting out much of the detail on pre-application consultation, optional SIP thresholds and fees. We would welcome clarity on timescales for the production and likely content of this secondary legislation, particularly on pre-application consultation requirements so that emerging infrastructure projects can properly plan ahead."

Ymgynghori cymunedol

24. Er gwaethaf pwyslais y Gweinidog ar ba mor bwysig yw ymgynghori cymunedol i'r Bil, dywedodd Kelvin MacDonald nad oedd wedi dod o hyd i unrhyw Adran a fyddai'n gwneud cyfranogiad cymunedol yn fwy hygyrch. Pwysleisiodd y gwahaniaeth rhwng bod â'r hawl i fod yn rhan o'r broses a chreu amgylchedd sy'n meithrin ac yn hyrwyddo cyfranogiad cymunedol gweithredol.

- 25.** Tynnodd Kelvin MacDonald sylw at Ddeddf Cynllunio 2008, sy'n cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i geisyddion amlinellu eu cynlluniau ar gyfer cynnwys y gymuned. Gallai fod yn fuddiol ymgorffori mecanweithiau statudol o'r fath yn y Bil presennol.
- 26.** Roedd Matthew Hindle, Wales & West Utilities, o'r farn y byddai'r gyfundrefn newydd yn rhoi eglurder i randdeiliaid, gan ei gwneud yn fwy syml iddynt ddeall ac ymgysylltu. Cytunodd Geoff Ogden, Trafnidiaeth Cymru, ond credai y byddai llwyddiant yr agwedd hon ar y gyfundrefn newydd yn y pen draw yn dibynnu ar y manylion a nodir yn yr is-ddeddfwriaeth.
- 27.** Roedd Dr David Clubb, CSCC, yn ansicr a oedd angen cynnwys darpariaethau manwl ar wyneb y Bil. Credai Steve Brooks, CSCC, na ddylai'r Bil fod yn rhy ragnodol ynghylch sut y dylai ymgysylltu ddigwydd ond cynigiodd y gallai orfodi datblygwyr i ddilyn canllawiau statudol. Pwysleisiodd y tebygrwydd i i Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gan awgrymu y gallai canllawiau clir arwain at ymgysylltu mwy ystyrlon â'r gymuned.
- 28.** Awgrymodd James Davies, Cymorth Cynllunio Cymru, efallai na fyddai dibynnu ar ganllawiau yn unig yn ddigon ac y dylid cynnwys gofynion penodol mewn is-ddeddfwriaeth. Nododd absenoldeb metrigau o fewn y system i fesur ansawdd a chyrhaeddiad ymgysylltu.
- 29.** Mae rhagor o fanylion am ymgynghori â'r gymuned wedi'u cynnwys yn ystyriaeth y Pwyllgor o Ran 3.

Adnoddau

- 30.** Mynegodd llawer o randdeiliaid bryder na fydd yr adnoddau presennol yn ddigon i gefnogi'r broses newydd. Dywedodd RTPi Cymru:

"... LPA departments are significantly underfunded, and research shows that planning services are suffering most severely of all local government services due to budget cuts... we believe that resourcing and expertise in the public sector, including Welsh Government, Planning and Environment Decisions Wales (PEDW), local planning authorities (LPAs) and local authorities more widely e.g. highways departments, NRW and other

statutory consultees, is currently a key barrier to timely decision making and delivery of projects."

31. Credai Bute Energy mai'r rhwystr mwyaf o ran gweithredu'r Bil a'r amcanion a nodir yn y Memorandwm Esboniadol yw adnoddau awdurdodau cyhoeddus ac ymgynghoreion statudol. Ychwanegodd:

"We desperately need to increase the flow of people and resources to our planning authorities, PEDW and NRW. We are already seeing considerable and costly delays which will only worsen with the significant number of projects in the pipeline."

32. Awgrymodd EDF Energy y dylai fod adnodd canolog o arbenigwyr ar gael i ACLlau, CNC a datblygwyr i fynd i'r afael â'r diffyg capasiti. Mae'n afrealistig disgwyl i bob ACLI fod â'r arbenigedd mewnol angenrheidiol ac awgrymodd y gallai cronfa o arbenigwyr yn gweithredu ar sail adfer cost lawn fod yn fwy costeffeithiol. Adleisiwyd hyn gan Bute Energy, a ddywedodd:

"We recognise that it is difficult to retain experienced employees, to continuously train new staff and to have enough personnel to process these applications across organisations. To address this issue and avoid delays in delivering the IC regime, we propose that a Welsh Government central resource, essentially a 'pool of experts' could be established to support the delivery of projects that would be available to WG, LPAs, PEDW, NRW and developers."

33. Mae rhagor o fanylion am adnoddau wedi'u cynnwys yn ystyriaeth y Pwyllgor o Ran 8.

Effaith ar yr amgylchedd

34. Esboniodd Annie Smith, RSPB Cymru, sut y cyflwynwyd gofynion gorfodol ar gyfer enillion net bioamrywiaeth yn Lloegr drwy Ddeddf yr Amgylchedd 2021, a chymeradwyodd ddull tebyg ar gyfer y Bil hwn. Credai Ross Evans, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, y dylai'r Bil gynnwys darpariaethau manwl yn nodi sut y byddai bioamrywiaeth yn cael ei hyrwyddo. Gwnaeth y Gymdeithas Cadwraeth Forol bwyntiau tebyg:

"We propose this Bill is used to adopt a nature positive development policy in Wales, underpinning the ambitions of COP15, the Biodiversity Deep Dive recommendations, the Section 6 duty under the Environment (Wales) Act and the Wellbeing and Future Generations Act."

35. Credai Ymddiriedolaethau Natur Cymru na ddylai cyflymu a symleiddio'r cyfundrefnau cydsynio ar gyfer seilwaith ddigwydd ar draul amddiffyn bioamrywiaeth, hyd yn oed os yw'r seilwaith hwnnw ar gyfer ynni adnewyddadwy. Adleisiwyd hyn gan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

36. Roedd y Gymdeithas Cadwraeth Forol yn gobeithio y byddai'r broses gydsynio arfaethedig yn caniatáu i faterion bioamrywiaeth gael eu hystyried mewn ffordd fwy cyfannol ac ymlaen llaw, yn hytrach nag yn ddiweddarach fel rhan o geisiadau cynllunio ar wahân. Ychwanegon nhw eu bod yn gobeithio bod hyn yn galluogi:

"..more of an ecosystem-based approach to be taken, which is a requirement of legislation such as the duty under Section 6 of the Environment (Wales) Act."

Tystiolaeth gan y Gweinidog

Trefniadau pontio

37. Esboniodd y Gweinidog y byddai trefniadau pontio yn cael eu cynnwys mewn rheoliadau. Pwysleisiodd yr angen i sicrhau bod y dyddiad newid yn glir iawn, gan ychwanegu ei fod yn destun trafodaethau parhaus gyda rhanddeiliaid amrywiol. Gan gyfeirio at ddatblygiadau sydd eisoes ar y gweill, ychwanegodd swyddog a oedd gyda'r Gweinidog:

"We are talking to developers and local planning authorities about how they would want the transitional provisions to actually work in practice. I think, as a matter of principle, where things have started, if you like, the statutory part of the process, and an application has been submitted, I think probably the most appropriate route is for that application to carry on"

through that process. The question mark is about the ones that are in the pre-application stage at the moment, and which process do they follow.”

Cynnwys darpariaethau ar wyneb y Bil

38. Mewn ymateb i gwestiwn am y doreth o ddarpariaethau ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn y Bil drwyddo draw, cydnabu'r Gweinidog ei fod yn gydbwysedd anodd ei daro. Esboniodd:

“we need the certainty in the headline Bill of the process itself, and then we need any detail that we think is going to be subject to continuous change to be in the regulations.”

39. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn archwilio, gyda'i swyddogion, a ellid cynnwys darpariaethau penodol ar wyneb y Bil. Gorffennodd drwy ddweud y byddai'n ystyried cynigion y Pwyllgor ar y mater hwn.

Adnoddau

40. O ran yr angen am lefelau digonol o adnoddau, dechreuodd y Gweinidog drwy esbonio ei bod yn disgwyl y bydd angen ychydig mwy o adnoddau ar y gyfundrefn newydd ar y dechrau, wrth i bobl ddod i arfer â hi. Aeth ymlaen i ddweud:

“once it's up and running, it won't take up any more resource than is now taken up, and if it works effectively, it might even take slightly less resource.”

41. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, byddai Llywodraeth Cymru'n arwain cyfres o hyfforddiant a chanllawiau ar y gyfundrefn newydd.

42. Gan gyfeirio at adennill costau llawn ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol ac ymgylgoreion statudol, dywedodd y Gweinidog:

“We're very committed to full cost recovery— I don't see any reason why the public purse should be subsidising developers of this scale. So, what we're currently doing is working with all of

our various organisations to make sure that all of their costs can be captured in the cost recovery process”.

43. Ymatebodd y Gweinidog i'r awgrym i gael uned gynghori ganolog drwy ddweud ei bod yn credu y byddai angen cyngor arbenigol yn y dyfodol yn ôl pob tebyg. Fodd bynnag, roedd yn ffafrio'r cyngor hwn yn cael ei ddarparu gan dimau rhanbarthol yn hytrach na thîm yn Llywodraeth Cymru.

Effaith ar yr amgylchedd

44. Pan holodd y Pwyllgor hi a fyddai'n ystyried cynnwys gofynion ar gyfer enillion net bioamrywiaeth yn y Bil, ymatebodd y Gweinidog mai Bil yn canolbwyntio ar broses oedd hwn, ac nad oedd yn credu mai'r Bil hwn oedd y cyfrwng priodol ar gyfer hynny.

Deialog gyda Llywodraeth y DU

45. O ran cydsyniad y goron, dywedodd swyddog a oedd gyda'r Gweinidog fod trafodaethau'n parhau ar lefel swyddogol. Eto i gyd, roedd yn disgwyl cael ymateb mewn da bryd i gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2, pe bai'r Bil yn cyrraedd y cyfnod hwnnw.

46. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog am y broses o drosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol i'r Senedd ar gyfer cydsynio gorsafoedd cynhyrchu ynni ar y môr rhwng ymyl parth Cymru a'r môr tiriogaethol. Cadarnhaodd y Gweinidog nad oedd unrhyw gynnydd wedi'i wneud.

Ein barn ni

Roedd y dystiolaeth a gafwyd gan randdeiliaid yn dangos cefnogaeth eang i amcanion y Bil. Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Bil yn canolbwyntio ar gael gwared ar amwysedd posibl a chamau eraill y mae rhanddeiliaid yn eu hystyried yn angenrheidiol i helpu i sicrhau bod y gyfundrefn newydd yn cael ei rhoi ar waith yn llwyddiannus.

Cyn ystyried y materion hyn ymhellach, rhaid i ni roi sylw i'r hyn y galwodd un rhanddeiliad yn un o fethiannau allweddol y Bil.

Er ein bod yn cydnabod yr angen am hyblygrwydd yn y Bil, credwn ei bod yn bwysicach bod yn dryloyw a darparu eglurder i'r rhai y mae ei ddarpariaethau'n effeithio arnynt. Nid ydym yn credu bod y cydbwysedd cywir wedi'i daro rhwng y darpariaethau sydd wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil a'r rhai a gadwyd yn ôl ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Mae'r Bil yn cynnwys 59 o bwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru.

Un o amcanion y Bil yw rhoi eglurder. Nid ydym yn credu bod y Bil, fel y'i drafftiodd, yn cyflawni hyn. Mae natur fframwaith y Bil yn golygu y bydd manylion sy'n hanfodol i weithrediad y gyfundrefn newydd yn cael eu cynnwys yn rheoliadau'r dyfodol. Mae hyn wedi effeithio'n ddifrifol ar allu'r Pwyllgor i graffu ar ba mor effeithiol y bydd y Bil o ran cyflawni ei fwriadau polisi, yn enwedig o ran yr uchelgais i greu "siop un stop".

Mae'n anffodus bod Bil sydd â'r nod o wella ymgynghori wedi cael ei ddrafftio mewn ffordd sy'n rhwystro ymgysylltiad ystyrlon ar ei ddarpariaethau a'r hyn y byddant yn ei olygu yn ymarferol. Credwn y gallai'r sefyllfa hon fod wedi'i lliniaru drwy gyhoeddi is-ddeddfwriaeth ddrafft ochr yn ochr â'r Bil. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r darpariaethau yn y Bil. Ond mae'n brin o fanylion, yn aml yn cydnabod y bydd y manylion yn newid, ac mae statws y ddogfen yn aneglur. Dylid nodi na chyhoeddwyd y ddogfen ochr yn ochr â'r Bil, ond bron i bedwar mis yn ddiweddarach.

Credwn y dylai Llywodraeth Cymru nodi'r amserlen ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Bil. Oherwydd y diffyg darpariaethau manwl yn y Bil, rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ymgynghori â rhanddeiliaid cyn gwneud is-ddeddfwriaeth. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag amserlenni sy'n gysylltiedig â'r gyfundrefn newydd a'r broses cyn gwneud cais. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod digon o amser ar gael i bwyllgorau'r Senedd allu ystyried y deg darn o is-ddeddfwriaeth yn y Bil a fydd yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol.

O ystyried y bydd y trefniadau manwl ar gyfer y gyfundrefn newydd yn cael eu cyflwyno drwy is-ddeddfwriaeth, credwn ei bod hi'n bwysig bod y cyhoedd, cyrff cyhoeddus a datblygwyr yn gallu cael gafael ar y fersiynau digidol diweddaraf o'r holl ddogfennau a deddfwriaeth sy'n berthnasol mewn un man

ar y rhyngwrwyd. Bydd hyn yn lliniaru'r risgiau sy'n codi o'r dull gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddewis.

Trefniadau pontio

Mae paragraff 7.2 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y disgwylir i'r gyfundrefn newydd fod yn gwbl weithredol erbyn canol 2025.

Clywsom alwadau cryf gan randdeiliaid am eglurder ynghylch sut y bydd y trefniadau pontio i'r gyfundrefn newydd yn gweithio yn ymarferol. Nodwn fod trefniadau pontio yn destun trafodaethau parhaus gyda rhanddeiliaid ac awdurdodau lleol.

Credwn fod tryloywder ynghylch y broses hon yn hollbwysig, a dylai'r Gweinidog gyhoeddi amserlen ddangosol yn nodi pryd y bydd y trefniadau pontio yn cael eu pennu.

Ymgynghori cymunedol

Mae'r Gweinidog wedi dweud bod gwella ymgysylltiad cymunedol yn rhan allweddol o'r Bil. Y broses cyn gwneud cais yn Rhan 3, ac adran 30 yn benodol, yw'r mecanwaith yn y Bil ar gyfer yr ymgysylltiad gwell hwnnw.

Mae'n anodd penderfynu a fydd yr adran hon yn arwain at welliannau a sut, gan fod cymaint o'r manylion yn cael eu gadael i is-ddeddfwriaeth. Mae adran 30(2) yn rhoi pwerau disgrisiwn i Weinidogion Cymru benderfynu â phwy y dylid ymgynghori a sut, yr amserlen ar gyfer ymgynghori, a'r gofynion adrodd. Gan fod y pwerau hyn yn bwerau disgrisiwn eu natur, maent hefyd yn cyfrannu at ddiffyg eglurder ynghylch y weithdrefn gyffredinol wrth symud ymlaen. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am fwriadau Llywodraeth Cymru, ond mae diffyg manylion hollbwysig o hyd.

Rydym yn cydnabod bod ymgynghori cymunedol yn cyflwyno heriau nad ydynt yn hawdd eu goresgyn. Serch hynny, rydym yn siomedig nad yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau manwl a fydd yn gwella ymgynghori cymunedol yn uniongyrchol. Rydym yn nodi rhagor o fanylion yn adran berthnasol yr Adroddiad.

Adnoddau

Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i adennill costau'n llawn a fydd, yn ein barn ni, yn hollbwysig i lwyddiant y gyfundrefn newydd.

Nodwn nad yw llawer o sefydliadau yn gallu mynd ati ar hyn o bryd i ymwneud â chyfundrefnau cynllunio mor effeithiol ag y dymunant oherwydd cyfyngiadau o ran adnoddau. Rhaid ystyried hyn wrth sicrhau bod y gyfundrefn newydd yn gweithredu'n effeithiol. Os bydd y gyfundrefn newydd yn gweithio cystal ag y mae'r Gweinidog yn ei ragweld, mae'n debygol y bydd y galwadau ar ymgylchreion ac awdurdodau cynllunio lleol yn cynyddu. Er enghraifft, os oes disgwyliad y bydd ymgysylltu yn cynyddu, gallai hyn arwain at gynnydd cysylltiedig mewn costau i dalu am gynnydd yn y mewnbwn sydd ei angen gan y sefydliadau hyn.

Nodwn efallai na fydd mynediad at gyngor a sgiliau arbenigol yn ddarbodus os bydd y cyngor a'r sgiliau hynny mewn awdurdodau lleol unigol o ystyried natur anaml ceisiadau Prosiect Seilwaith Arwyddocaol mewn ardaloedd awdurdod lleol penodol. Er mwyn i'r gyfundrefn fod yn effeithiol, rhaid i Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus gydweithio i ddod o hyd i'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddarparu'r cyngor arbenigol sydd ei angen ar draws gwahanol leoliadau daearyddol.

Dylai'r Gweinidog gynorthwyo awdurdodau lleol i nodi mecanweithiau effeithiol a fydd yn eu galluogi i rannu'r hyn a ddysgwyd ac arfer da o weithio yn y gyfundrefn newydd.

Effaith ar yr amgylchedd

Nodwn sylwadau'r Gweinidog nad yw'r Bil hwn yn gyfrwng priodol ar gyfer targedau sy'n ceisio sicrhau enillion net bioamrywiaeth. Edrychwn ymlaen at graffu ar y Bil sydd ar ddod ar adfer natur pan fydd yn barod.

Argymhellion

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Senedd yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi amserlen fanwl ar gyfer paratoi a chyhoeddi'r is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Bil a, lle bo'n briodol, ar gyfer ymgynghori ar yr is-ddeddfwriaeth honno.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi darnau allweddol o is-ddeddfwriaeth mewn drafft ac ymgynghori â rhanddeiliaid cyn bwrw ymlaen â'r fersiynau terfynol.

Argymhelliad 4. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod digon o amser ar gael i bwyllgorau'r Senedd ystyried y darnau allweddol o is-ddeddfwriaeth yn y Bil a fydd yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol.

Argymhelliad 5. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod fersiynau digidol o'r is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Bil, a chanllawiau a dogfennau cysylltiedig, ar gael mewn un man ar y rhyngrwyd sy'n hawdd ei gyrchu i'r cyhoedd, cyrff cyhoeddus a datblygwyr.

Argymhelliad 6. Dylai'r Gweinidog gyhoeddi amserlen ddangosol yn nodi pryd y penderfynir ar y trefniadau pontio i'r gyfundrefn newydd.

Argymhelliad 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus gydweithio i ddod o hyd i'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddarparu'r cyngor arbenigol sydd ei angen ar draws gwahanol leoliadau daearyddol. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar gynnydd o fewn y 6 mis nesaf.

3. Rhannau 1 a 2 - Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol a'r Gofyniad am Gydsyniad Seilwaith

47. Mae Rhan 1 yn diffinio ystyr Prosiectau Seilwaith Arwyddocaol a'r mathau o brosiectau a fydd yn destun y broses gydsynio newydd.

48. Mae Rhan 2 yn nodi'r gofynion am gydsyniad seilwaith ar gyfer datblygiad sy'n brosiect seilwaith arwyddocaol neu sy'n ffurfio rhan o brosiect o'r fath.

Rhan 1 - Tystiolaeth gan randdeiliaid

Adran 1 – Ystyr “prosiect seilwaith arwyddocaol”

49. Mae adran 1 yn esbonio ystyr “prosiectau seilwaith arwyddocaol” at ddibenion y Bil. Mae datblygiad yn “Brosiect Seilwaith Arwyddocaol” (“SIP”) os yw'n dod o dan un o dri chategori:

- Os yw'n dod o dan un o'r diffiniadau a bennir yn Rhan 1 o'r Bil;
- Os yw wedi'i bennu felly mewn cyfarwyddyd a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 22; neu
- Os yw wedi'i bennu yn brosiect seilwaith arwyddocaol yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

50. Trafododd Hannah Hickman yr anhawster o ddiffinio prosiectau seilwaith “arwyddocaol”. Amlygodd y meini prawf amrywiol, megis graddfa gweithrediad neu gapasiti, a allai fod yn amlwg mewn rhai meysydd ond a allai fod yn aneglur mewn meysydd eraill. Roedd yn pryderu am y rhesymeg y tu ôl i'r categorïau a chysondeb y dull gweithredu. Galwodd am resymau clir dros gynnwys neu eithrio mathau penodol o ddatblygiadau. Cytunodd Kelvin MacDonald a mynegodd bryderon am amwyseddau ynghylch diffiniadau'r categorïau. Pwysleisiodd yr angen am gywirdeb a phwysigrwydd eglurder i ddatblygwyr.

51. Roedd CNC yn credu bod y darpariaethau yn ddigon clir ar y cyfan ond cododd bryderon am feysydd penodol. Er y soniwyd am yr ardal forol mewn

meysydd penodol, megis Seilwaith Trydan, cafodd ei hepgor mewn eraill. Awgrymodd CNC y dylid cyfeirio at yr ardal forol ym mhob maes perthnasol.

52. Awgrymodd y Grid Cenedlaethol y dylid diwygio'r Bil i ganiatáu i rai datblygiadau optio i mewn i'r broses gydsynio newydd. Ategwyd hyn gan RWE Renewables ac NIPA, gyda'r olaf yn awgrymu:

“the ability of developers to apply for specific projects to be brought into the SIP regime is essential for the new consenting regime to function as a “one stop shop” where most needed. Although some projects may fall within the scope of the Town and Country Planning Act, where multiple consents are required, developers should be able to apply and bring them to the SIP regime.”

Adran 2 – 6 – Ynni

53. Mae adrannau 2 i 5 yn nodi o dan ba amgylchiadau y bydd y seilwaith a ganlyn yn brosiect seilwaith arwyddocaol:

- Seilwaith trydan
- Cyfleusterau nwy naturiol hylifedig
- Cyfleusterau derbyn nwy
- Holli hydrologig am olew a nwy a nweiddio glo.

54. Mae adran 6 yn datgan bod creu mwynglawdd glo brig neu gloddio a gweithio glo o fwynglawdd brig yng Nghymru yn brosiect seilwaith arwyddocaol.

55. Tynnodd RWE Renewables sylw at ddiffygion y Bil o ran mynd i'r afael â'r seilwaith newydd sydd ei angen ar gyfer y trawsnewid i ynni adnewyddadwy. Roedd enghreifftiau'n cynnwys pibellau dosbarthu hydrogen, cyfleusterau cysylltiedig â CO₂, rhwydweithiau gwres a rennir a chyflenwadau dŵr sy'n benodol i electrolysis hydrogen gwyrdd. Tynnodd y cwmni sylw at y ffaith bod y Bil yn hepgor cynhyrchiant hydrogen annibynnol a chyfleusterau cysylltiedig. Cytunodd Bute Energy, gan ddweud:

“we note there is an absence of emerging and future technologies such as hydrogen infrastructure and related activities within the definition of SIPs. Whilst there are provisions under Section 17 that grant powers to Welsh Ministers to add, vary or remove types of SIPs, it is disappointing that this is not accounted for in the current document. We would welcome this addition given the Welsh Government’s push to develop a hydrogen strategy as part of the pathway for net zero.”

56. Cefnogwyd hyn gan Ynni Glân a Statkraft.

57. Mynegodd Wales and West Utilities (WWU) bryderon ynghylch hepgoriad piblinellau nwy neu gyfleusterau storio nwy, er bod y Bil yn rhoi sylw i gyfleusterau nwy naturiol hylifedig a chyfleusterau derbyn nwy. O ganlyniad, ni fyddai prosiectau allweddol posibl megis piblinellau hydrogen newydd yn cael eu cwmpasu gan y Bil. Roedd WWU o’r farn bod yr eithriad hwn yn arbennig o nodedig gan fod disgwyl i hydrogen fod yn allweddol wrth gyflawni cyllidebau carbon a thargedau sero net.

58. Wrth gyfeirio at ddatblygiad solar, dywedodd SolarEnergyUK:

“For solar development, the 50MW threshold should be its inverter rating (AC) and not its DC rating (which for a 50MW AC project would be closer to 70MW). This position has been accepted by the Secretary of State in England. It would be helpful for this to be set out in the Bill to avoid confusion on this threshold in Wales.”

59. Dywedodd Cyngor Dinas Casnewydd fod angen eithrio cyfleusterau storio ynni yn benodol o’r diffiniad o seilwaith Trydan yn Adran 2. Cododd y Cyngor bryderon ynghylch hepgor piblinellau, a oedd wedi’u cynnwys yn Neddf Cynllunio 2008, o’r ddeddfwriaeth bresennol.

60. Mynegodd Grŵp Cymunedol Llanarthne a’r Cylch yn erbyn Peilonau bryder ynghylch eithrio rhai mathau o linellau trydan, uwchben ac o dan y ddaear, o ddiffiniadau’r Bil. Yn benodol, roedd ansicrwydd ynghylch pam roedd rhai folteddau llinellau trydanol wedi’u cynnwys neu eu heithrio a sut y gallai hyn effeithio ar yr amcan cyffredinol o symleiddio’r broses gwneud cais. Roedd statws

llinellau trydan tanddaearol yn codi pryderon penodol; roedd y rhain yn hepgoriad amlwg yn y Bil.

Adrannau 12 – 13 – Dŵr

61. Nododd Dŵr Cymru mai'r trothwy ar gyfer diffinio datblygiad adnoddau dŵr fel prosiect seilwaith arwyddocaol yw 100 miliwn metr ciwbig y flwyddyn. Roeddent yn credu bod hyn yn eithriadol o fawr o ystyried nad yw Dŵr Cymru fel cwmni ond yn cyflenwi tua 350 miliwn metr ciwbig y flwyddyn. Esbonion nhw:

“Mae hi'n annhebygol iawn y câi unrhyw ddatblygiad adnoddau dŵr y mae DCWW yn ei gyflawni ei gategoreiddio'n SIP, ac felly ni fyddent yn elwa ar y broses ganiatáu well, unedig a symlach yn y cyswllt hwn.”

62. Dywedodd Dŵr Cymru:

“Mae'n destun pryder hefyd gweld nad yw prosiectau seilwaith pwysig ar gyfer disodli piblinellau ac ati wedi eu cynnwys, ond yn hytrach, y gallant ddod o dan y capasiti ar gyfer trosglwyddo dŵr gwastraff. Gallai rhai o brosiectau piblinell pwysig DCWW, fel disodli'r brif bibell SECS yn ne-ddwyrain Cymru, gael eu categoreiddio fel SIP.”

Adran 17 – Pŵer i ddiwygio

63. Mae adran 17 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio Rhan 1 drwy reoliadau i ychwanegu, amrywio neu ddileu math o brosiect a fydd yn cael ei ystyried yn brosiect seilwaith arwyddocaol. Dim ond prosiectau yn ymwneud â'r meysydd ynni, atal llifogydd, mwynau, cludiant, dŵr, dŵr gwastraff a gwastraff y caniateir eu hychwanegu neu eu hamrywio.

64. Roedd y Gymdeithas Ymgynghorwyr a Pheirianwyr (ACE Cymru) o blaid cynnwys y darpariaethau hyn a nododd fod rhaid i feini prawf y Bil fod yn hyblyg er mwyn ymateb i esblygiad cyflym technoleg. Fodd bynnag, yn ôl NFU Cymru, yn wahanol i adrannau 2 i 16, nid oedd rhai meysydd a nodir yn adran 17 (atal llifogydd a mwynau) yn cynnwys meini prawf manwl. Roeddent yn teimlo y dylid cynnal ymgynghoriad cynhwysfawr gyda rhanddeiliaid cyn defnyddio pŵer Adran 17.

Adran 18 – Dehongli

Prosiectau trawsffiniol

65. Tynnodd Lisa Phillips, CNC, sylw at gymhlethdod posibl prosiectau trawsffiniol. Er mwyn ymdrin â'r cymhlethdodau hyn yn llwyddiannus, roedd hi'n credu y dylai'r holl bartïon cysylltiedig fod yn wybodus am ofynion gwahanol gyfundrefnau. Pwysleisiodd hefyd yr angen am ganllawiau clir a chyfathrebu effeithiol. Yn yr un modd, dywedodd Bute Energy wrth y Pwyllgor:

“further clarity and detail will be crucial for onshore, offshore and grid projects on how they should be consented and how provisions interface with the PA2008.”

66. Tynnodd Liz Dunn, RenewableUK Cymru, sylw hefyd at yr heriau ar gyfer prosiectau trawsffiniol yn y dyfodol, lle gallai fod angen ceisiadau cydamserol ar gyfer prosesau cydsynio Cymru a Lloegr.

67. Wrth gyfeirio at brosiectau gwynt ar y môr yn y Môr Celtaidd sy'n pontio dyfroedd Cymru a Lloegr, dywedodd RenewableUK Cymru:

“Certainty will be needed in terms of the consenting route as soon as possible for those proposed project development plans in anticipation of leasing rounds. Whilst it's understood that project phases may be progressed to address this, should a project decide to proceed as a whole (greater than 350MW), it is not currently clear if the larger scale project will be required to apply for an IC (for Welsh marine licensing purposes) as well as a DCO.”

Rhan 2 – Tystiolaeth gan randdeiliaid

Adran 22 – Cyfarwyddydau sy'n pennu bod datblygiad yn brosiect seilwaith arwyddocaol

68. Mae adran 22 yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd sy'n pennu bod datblygiad penodol yn brosiect seilwaith arwyddocaol os yw'r datblygiad, pan fydd wedi'i gwblhau, yn gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru neu ardal forol Cymru a bod y datblygiad yn brosiect neu'n rhan o brosiect y mae

Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod o arwyddocâd cenedlaethol, a'i fod o fath a bennir mewn rheoliadau.

69. Tynnodd WWU sylw at y defnydd effeithiol o ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf Cynllunio 2008. Roedd SP Energy Networks hefyd o blaid darpariaethau adran 22 ond pwysleisiodd yr angen am ganllawiau clir ar y meini prawf a fyddai'n cael eu defnyddio i benderfynu ar eu defnydd.

Adran 24 – Cyfarwyddydau sy'n pennu nad yw datblygiad yn brosiect seilwaith arwyddocaol

70. Mae adran 24 yn darparu y gall Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd sy'n pennu na ddylai datblygiad a fyddai'n brosiect seilwaith arwyddocaol fel arall gael ei ddsbarthu fel prosiect seilwaith arwyddocaol at ddiben y Bil hwn. Dim ond os yw'r datblygiad yn rhannol yng Nghymru neu yn ardal forol Cymru y caniateir rhoi cyfarwyddyd a wneir o dan adran 24.

71. Rhybuddiodd Grŵp Cymunedol Llanarthne a'r Cylch yn erbyn Peilonau y gallai'r pwerau cyfarwyddo yn adrannau 22 a 24 gael eu camddefnyddio er mantais wleidyddol, gan ganiatáu i benderfyniadau â goblygiadau gwleidyddol negyddol gael eu hosgoi. Roeddent yn awgrymu y dylid sefydlu meini prawf clir ynghylch yr amgylchiadau y gellid defnyddio'r pwerau oddi tanynt.

72. Roedd Associated British Ports yn croesawu'r darpariaethau yn adran 24. Fodd bynnag, roeddent yn credu na ddylai fod modd defnyddio'r pŵer hwn heb ymgynghoriad ffurfiol ac roeddent yn awgrymu y dylai hynny fod yn ofyniad statudol.

Adran 26

73. Mae adran 26 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch materion gweithdrefnol penodol mewn cysylltiad â chyfarwyddiadau o dan adran 22, 23 a 24. Mae hyn yn cynnwys terfynau amser ar gyfer gwneud penderfyniadau yn dilyn ceisiadau am gyfarwyddiadau.

74. Soniodd RenewableUKCymru am y diffyg amserlen yn y darpariaethau ar gyfer penderfynu ar gais am gyfarwyddyd, a dywedodd:

“We suggest that this should be aligned with the Planning Act 2008 timescale of 28 days as a maximum (it would preferably be shorter to ensure the overall determination process of 52 weeks is achievable due to the discrepancy between the aggregate duration of the NSIP process compared with the 52-week ambition of the Bill). There are critical elements of the direction process which needs to run efficiently so as not to delay projects that are already in progress.”

75. Cefnogwyd y cynnig hwn gan SolarEnergyUK ac RWE Renewables.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

76. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog am y dystiolaeth a ddarparwyd gan randdeiliaid y gallai rhywfaint o'r iaith a ddefnyddir i ddisgrifio'r categorïau o brosiectau seilwaith arwyddocaol fod yn agored i ddehongliad. Dywedodd swyddog a oedd gyda'r Gweinidog:

“there may be things that fall below the threshold, are novel, and they are things that we could direct as significant infrastructure projects. It may be the location, it may be the fact it's novel, and they would then follow this process...New technologies will come along in the future, and that's why we have the ability to add categories using secondary legislation in the future as well. We think we've captured most things. If there are things that people feel we should include, we need to hear them.”

77. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch hepgor cynhyrchu a chludo hydrogen o'r maes Ynni, esboniodd y Gweinidog y byddai cynhyrchu neu gludo hydrogen yn debygol o ddigwydd fel rhan o ddatblygiad a fyddai'n dod o fewn un o'r meysydd eraill yn Rhan 1:

“if somebody who's trying to produce hydrogen, or a local authority has somebody trying to produce hydrogen, they're going to produce hydrogen, and there are only two ways of doing that currently; they're going to attach it to a fossil fuel generator of some sort or they're going to attach it to a

renewable energy generator of some sort. Both of those would be captured.”

Prosiectau trawsffiniol

78. Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd hi'n fodlon bod y Bil yn ddigon clir ynghylch cydsynio prosiectau trawsffiniol, ac ymatebodd:

“Yes, we'll have to discuss this with the UK Government and English counterparts all the time. We have the ability in the Bill to switch our process off if we think it's better to be done the other side. So, we think that's the best way for it to be determined”.

Ein barn ni

Nodwn sylwadau rhanddeiliaid am yr angen am fwy o eglurder o ran y darpariaethau yn adrannau 1 i 16.

Dyweddodd y swyddog a oedd gyda'r Gweinidog wrthym y byddai'r rhan fwyaf o fathau o brosiectau'n cael eu hystyried yn brosiectau seilwaith arwyddocaol o dan y darpariaethau yn adrannau 1 i 16. Fodd bynnag, nid dyna oedd barn y rhan fwyaf o ddatblygwyr a gyfrannodd at waith y Pwyllgor. Ymhellach, nodwn sylwadau penodol y Gweinidog ar gynhyrchu a chludo hydrogen.

Mae gwahaniaeth barn sylweddol ar yr hyn a gaiff ei gwmpasu gan ddarpariaethau adrannau 1 i 16, ac mae cryn anesmwythder ymhlith datblygwyr ynghylch nifer o hepgoriadau. Credwn fod angen ymgysylltu pellach rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i fynd i'r afael â'r materion hyn cyn i'r Bil gwblhau ei daith drwy'r Senedd.

Roedd datblygwyr yn cefnogi'r posibilrwydd o allu “optio i mewn” i'r gyfundrefn prosiect seilwaith arwyddocaol ar gyfer prosiectau penodol. Nid yw hwn yn fater y mae'r Pwyllgor wedi gallu ei archwilio'n llawn. Byddem yn ddiolchgar pe byddai'r Gweinidog yn egluro ei safbwynt ar hyn ac a yw'n ystyried y gellid defnyddio'r pŵer yn adran 22 o'r Bil i hwyluso gweithdrefn optio i mewn.

Mae'r Pwyllgor yn deall yr angen i ymateb i dechnolegau a datblygiadau newydd ac mae'n derbyn bod y pwerau adran 17 i ddiwygio'r mathau o

brosiectau yn adrannau 1 i 16 yn angenrheidiol. Nodwn, fodd bynnag, y sylwadau am atal llifogydd a mwynau a chredwn y dylai'r Gweinidog esbonio pam nad yw'r meini prawf cysylltiedig y meysydd hyn wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil.

Cytunwn â rhanddeiliaid y dylid cael canllawiau clir ar yr amgylchiadau pan all Gweinidogion Cymru ddefnyddio pwerau cyfarwyddo adran 22 neu 24. Credwn y byddai'n briodol diwygio adran 25 i fandadu cyhoeddi canllawiau o'r fath.

Nodwn y galwadau am sicrwydd ynghylch y terfynau amser i Weinidogion Cymru benderfynu ar gais am gyfarwyddyd o dan adrannau 22 i 24. Ar hyn o bryd, Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu ar derfynau amser mewn rheoliadau. Unwaith eto, mae'n destun pryder y bydd cymaint o fanylion y gyfundrefn newydd yn cael eu cynnwys mewn rheoliadau. Mewn cyferbyniad, mae Deddf Cynllunio 2008 yn pennu terfynau amser, gan roi eglurder a sicrwydd i ddatblygwyr. Ni welwn unrhyw reswm pam na all Llywodraeth Cymru fabwysiadu'r un dull ar gyfer y Bil hwn. Credwn y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r perwyl hwnnw.

Argymhellion

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y meini prawf yn Rhan 1 i ddatrys pryderon cyn i'r Bil gwblhau ei daith drwy'r Senedd.

Argymhelliad 9. Dylai'r Gweinidog egluro ei safbwynt ar gynnwys darpariaeth "optio i mewn" yn y gyfundrefn prosiectau seilwaith arwyddocaol ac esbonio a yw'n ystyried y gellid defnyddio'r pŵer yn adran 22 o'r Bil i hwyluso gweithdrefn o'r fath.

Argymhelliad 10. Dylai'r Gweinidog egluro pam nad meini prawf cysylltiedig yr meysydd yn adran 17 wedi eu cynnwys ar wyneb y Bil.

Argymhelliad 11. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 25 i fandadu cyhoeddi canllawiau mewn perthynas â'r amgylchiadau pan gaiff Gweinidogion Cymru ddefnyddio pwerau cyfarwyddo adran 22 neu 24.

Argymhelliad 12. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i adran 25 i bennu terfyn amser erbyn pryd y mae'n rhaid i'r Gweinidog ymateb i gais cymwys gan ddatblygwr am gyfarwyddyd o dan adran 22 neu 24.

4. Rhan 3 - Gwneud Cais am Gydsyniad Seilwaith

79. Mae Rhan 3 yn nodi'r weithdrefn cyn gwneud cais, sut mae cais am gydsyniad seilwaith i gael ei wneud a'r gofynion ar gyfer cyhoeddusrwydd a hysbysu am gais.

Tystiolaeth gan randdeiliaid

Adrannau 27 a 28 - Cymorth i geisyddion

80. Mae adran 27 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch darparu gwasanaethau cyn gwneud cais gan Weinidogion Cymru neu awdurdodau cynllunio lleol. Bwriad gwasanaethau cyn gwneud cais yw cynorthwyo darpar geisyddion cyn cyflwyno cais am gydsyniad seilwaith.

81. Mae adran 28 yn galluogi Gweinidogion Cymru i awdurdodi ceisydd am gydsyniad seilwaith i gyflwyno hysbysiad i'r bobl a bennir yn is-adran (4) i gael gwybodaeth benodol.

82. Nododd ACE Cymru, er y gallai'r broses cyn gwneud cais olygu mwy o gostau ac amser, gallai'r manteision hirdymor, megis symleiddio camau diweddarach, fod yn sylweddol. Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod cyrff sy'n darparu cyngor o'r fath yn meddu ar yr arbenigedd, yr adnoddau a'r gallu i wneud penderfyniadau gofynnol.

83. Roedd Grŵp Cymunedol Llanarthne a'r Cylch yn erbyn Peilonau yn bryderus ynghylch y disgrisiwn a roddir i Weinidogion Cymru yn adran 28 i awdurdodi casglu manylion perchnogaeth tir. Pwysleisiwyd yr angen am ganllawiau clir ar yr wybodaeth y gellid gofyn amdani.

84. Dadleuodd NFU Cymru y dylai manylion ynghylch fformat, cynnwys hysbysiadau ac amserlenni ar gyfer ymatebion gael eu nodi'n glir yn y Bil. Ar gyfer hysbysiadau o dan adran 28(5), credai NFU Cymru y dylid caniatáu o leiaf 21 diwrnod ar gyfer cydymffurfio, gyda darpariaethau ar gyfer estyniadau os oes angen. Ar gyfer adran 28(8), sy'n cyfeirio at ddirwy ar gollfarn o drosedd, roeddent

yn disgwyl i'r Bil bennu terfyn uchaf ar gyfer y ddirwy, gan ei gyfateb o bosibl i lefel 5 ar y raddfa safonol.

Adrannau 29 a 30 - Y weithdrefn cyn gwneud cais

85. Mae adran 29 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson sy'n bwriadu gwneud cais am orchymyn cydsyniad seilwaith hysbysu'n gyntaf Weinidogion Cymru, pob awdurdod cynllunio lleol ar gyfer yr ardal y lleolir y datblygiad arfaethedig ynddi, ac unrhyw bobl eraill a nodir mewn rheoliadau. Rhaid i hysbysiad o dan yr adran hon gydymffurfio ag unrhyw ofynion a bennir mewn rheoliadau.

86. Mae adran 30 yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n cynnig cyflwyno cais am gydsyniad seilwaith gynnal ymgynghoriad ar gais arfaethedig cyn ei gyflwyno. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar gyfer ymgynghoriadau neu mewn cysylltiad ag ymgynghoriadau.

87. Pwysleisiodd RWE Renewables yr angen i'r gofynion yn y rheoliadau fod yn gymesur er mwyn osgoi rhoi gormod o faich ar geisyddion. Galwodd am eglurder ar safonau ymgynghori i sicrhau bod y broses cyn gwneud cais yn parhau i fod yn drylwyr ac yn deg. O ystyried pwysigrwydd y rheoliadau sy'n deillio o'r rhan hon o'r Bil, pwysleisiodd RWE Renewables yr angen i ymgynghori ar yr is-ddeddfwriaeth ddrafft. Dywedodd Solar Energy UK fod y diffyg manylion ar wyneb y Bil yn ddi-fudd a galwodd am fynd i'r afael â hyn.

88. Gan gyfeirio at adran 29, awgrymodd NFU Cymru y dylai manylion a gadwyd yn ôl ar gyfer rheoliadau fod wedi'u cynnwys ar wyneb y Bil. Credai NFU Cymru y dylai'r amser ymateb ar gyfer ymgynghoriadau cyn gwneud cais yn adran 30(2)(d) fod o leiaf 28 diwrnod. At hynny, ar gyfer adran 30(3), credent ei bod yn hanfodol cynnwys amod ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd mewn papurau newydd lleol a rhai cenedlaethol.

89. Lleisiodd Ross Evans, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, bryderon am annigonolrwydd y gyfundrefn gydsynio bresennol. Nid oedd yn teimlo bod y gyfundrefn newydd yn addawol yn ei ffurf bresennol. Er y cydnabu y gallai'r gyfundrefn newydd symleiddio prosesau, nid oedd yn credu y byddai'r Bil yn newid rôl cymunedau yn y broses.

Adrannau 31 i 33 – Y broses o wneud cais am gydsyniad seilwaith

90. Mae adran 31 yn ei gwneud yn ofynnol i gais am gydsyniad seilwaith gael ei wneud i Weinidogion Cymru ac mae'n darparu mai dim ond os gwneir cais amdano y gellir rhoi cydsyniad seilwaith. Mae adran 32 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, ar ôl cael cais am gydsyniad seilwaith, benderfynu a ddylid derbyn cais fel un dilys ai peidio. Mae adran 33 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru hysbysu partïon penodol pan fônt wedi derbyn cais fel un dilys.

91. Gan gyfeirio at adran 32, dywedodd Bute Energy:

“Section 32(1) notes that Welsh Ministers have power to determine whether or not to accept applications and must give notice of their decision. However, there is no information on what criteria will be applied or the timescales involved.”

92. Credai NFU Cymru a Lighthouse bp y dylai Gweinidogion Cymru benderfynu ar ddilysrwydd cais o fewn cyfnod o 28 diwrnod.

93. Dywedodd Bute Energy fod adran 33(7) yn caniatáu Gweinidogion Cymru i wneud y canlynol:

“extend the deadline for receiving representations in response to an application for an IC and also allows this to occur more than once. Whilst we acknowledge there is a need for this to take place under certain circumstances, we believe there should be sufficient justification that should accompany these extensions if required. Extensions should be the exception rather than the norm. Again, allowing such a broad mechanism for extending consultation periods compromises the overall objective for timeliness and efficiency of the Bill.”

Adran 36 – Adroddiadau effaith ar y môr

94. Mae adran 36 yn ei gwneud yn ofynnol i CNC gyflwyno adroddiad effaith ar y môr i Weinidogion Cymru pan gaiff ei hysbysu am gais am ddatblygiad arfaethedig yn ardal forol Cymru, os yw'r gorchymyn drafft a gyflwynwyd mewn

cais am gydsyniad seilwaith yn cynnwys darpariaeth ar gyfer trwydded forol dybiedig.

95. Dywedodd CNC eu bod mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru am oblygiadau'r darpariaethau hyn. Dywedodd Cymdeithas Porthladdoedd Prydain fod y gofyniad hwn yn ymddangos:

“out of step with equivalent regimes elsewhere in the UK. If it is to be included it is essential that this requirement is undertaken such as to ensure no additional time constraints to the process are incurred. Clearly NRW are an important consultee and we would suggest they are included in the consultation regulations without a legislative requirement for them to respond.”

Tystiolaeth gan y Gweinidog

Ymgynghori cymunedol

96. Ailadroddodd y Gweinidog ei barn y byddai ymgynghori'n gwella gan y byddai'r gyfundrefn newydd yn symlach. Dywedodd fod darpariaethau yn y Bil yn golygu y byddai dau gyfle ac, mewn gwirionedd, mwy na dau gyfle mwy na thebyg, ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar ddatblygiad. Esboniodd ei bod yn disgwyl i ddatblygwyr gynnal proses cyn gwneud cais, a fyddai hefyd yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus.

97. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch sut y gellid cryfhau'r Bil i gynyddu ymgysylltiad y cyhoedd, dywedodd y Gweinidog y byddai'n ystyried unrhyw argymhellion a wneir gan y Pwyllgor yn hyn o beth.

98. Gofynnwyd i'r Gweinidog a ddylai darpariaethau sy'n cyfateb i adrannau 47 i 49 o Ddeddf Cynllunio 2008 – sy'n gosod dyletswydd ar ddatblygwyr i roi cyhoeddusrwydd i'r cynigion ac i ymgynghori – gael eu cynnwys yn y Bil. Dywedodd:

“we're a bit wary about this, if we're honest, because the requirements in the 2008 Act are developed alongside the local planning authority, so you're putting an additional burden on them to produce something. They're only have regard provisions, so they're not very strong...And there's not a

minimum standard for that. So, I think we're very hopeful that we can put into our secondary regulations a set of minimum standards and requirements that are better, I would suggest, than that, and that we'll have a rather better set of certain things that the developer has to run through in order to get there."

Ein barn ni

Nodwn fod y Gweinidog wedi dweud ei bod yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno, drwy reoliadau, safonau cryfach a gwell ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned nag y darperir ar ei gyfer yn Neddf Cynllunio 2008. Ond mae'n amlwg o'i sylwadau nad oes unrhyw gynigion manwl wedi'u paratoi eto. Dyma'r broblem sylfaenol gyda Bil fel hwn – gofynnir i ni fod â *ffydd* y bydd gwell system yn cael ei chyflwyno drwy'r rheoliadau.

Nid yw'r Gweinidog wedi rhoi unrhyw esboniad pam na all darpariaethau ar ymgynghori a chyhoedduswydd gael eu cynnwys, mewn rhyw ffurf, ar wyneb y Bil. Credwn fod hyn yn gollu cyfle sylweddol. Credwn y dylai'r Gweinidog ddiwygio'r Bil i roi mwy o eglurder mewn perthynas â phrosesau ymgynghori a chyhoedduswydd. Dylai'r Gweinidog ystyried darpariaethau Deddf Cynllunio 2008 fel man cychwyn.

Yn ei hymateb i'r Adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog nodi'r amserlenni ar gyfer gwneud rheoliadau o dan adran 30. O ystyried pa mor allweddol yw ymgynghoriad cyhoeddus i'r gyfundrefn newydd, dylai'r Gweinidog gyhoeddi'r rheoliadau drafft ac ymgynghori arnynt.

At hynny, nodwn y sylwadau gan randdeiliaid yn dweud, er bod enghreifftiau o arfer da gan ddatblygwyr ar ymgynghori â'r gymuned, eu bod ymhell o fod yn gyson. Dylai'r Gweinidog gyhoeddi canllawiau i randdeiliaid ar arfer gorau a safonau disgwyledig ar gyfer ymgynghori â'r gymuned.

Cododd rhanddeiliaid nifer o faterion eraill mewn tystiolaeth ynghylch y weithdrefn gwneud cais. Yn anffodus, mae'r materion hyn wedi'u cadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn hytrach na chynnwys y manylion ar wyneb y Bil. Maent yn cynnwys:

Adran 28 – cael gwybodaeth ynghylch buddiannau mewn tir; ac

Adran 29 – hysbysu am gais arfaethedig.

Adran 32 – penderfynu ar ddilysrwydd cais a hysbysu'r ceisydd.

Adran 33 – hysbysiad am geisiadau a dderbynnir a chyhoedduswydd.

Dylai'r Gweinidog ystyried sylwadau rhanddeiliaid yn yr Adroddiad hwn wrth ddatblygu'r is-ddeddfwriaeth.

Argymhellion

Argymhelliad 13. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i roi mwy o eglurder mewn perthynas â phrosesau ymgynghori a chyhoedduswydd. Dylai'r Gweinidog ystyried darpariaethau Deddf Cynllunio 2008 fel man cychwyn.

Argymhelliad 14. Yn ei hymateb i'r Adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog nodi'r amserlenni ar gyfer gwneud rheoliadau o dan adran 30. O ystyried pa mor allweddol yw ymgynghoriad cyhoeddus i'r gyfundrefn newydd, dylai'r Gweinidog gyhoeddi'r rheoliadau drafft ac ymgynghori arnynt.

Argymhelliad 15. Dylai'r Gweinidog gyhoeddi canllawiau i randdeiliaid ar arfer gorau a safonau disgwylidig ar gyfer ymgynghori â'r gymuned.

5. Rhannau 4 a 5 - Archwilio Ceisiadau a Phenderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith

99. Mae Rhan 4 yn amlinellu'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer archwilio ceisiadau am gydsyniad seilwaith.

100. Mae Rhan 5 yn cynnwys darpariaethau ynghylch penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith. Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth ynghylch pwy sy'n penderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith a wneir o dan Adran 31, ynghylch yr hyn y mae'n rhaid i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ei ystyried wrth benderfynu ar gais, ynghylch yr amserlen ar gyfer gwneud y penderfyniad ac ynghylch gwneud y penderfyniad.

Rhan 4 - Tystiolaeth gan randdeiliaid

Adran 39 - Penodi awdurdod archwilio

101. Mae adran 39(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru benodi person neu banel o bobl i archwilio pob cais dilys am gydsyniad seilwaith.

102. Pwysleisiodd Grŵp Cymunedol Llanarthne a'r Cylch yn erbyn Peilonau bwysigrwydd sicrhau bod yr awdurdod archwilio'n parhau i fod yn ddiduedd ac yn rhydd o unrhyw fuddiannau breintiedig. Amlygwyd pryderon y gallai awdurdodau a benodir gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau adlewyrchu polisiâu neu wleidyddiaeth y llywodraeth bresennol. Awgrymwyd proses benodi drawsbleidiol i sicrhau tryloywder a dewis personél yn wrthrychol ar gyfer yr awdurdod archwilio.

103. Pwysleisiodd NFU Cymru bwysigrwydd amlinellu'r darpariaethau ar gyfer penodi awdurdodau archwilio yn y Bil yn hytrach nag mewn is-ddeddfwriaeth.

104. Pwysleisiodd CNC yr angen am arbenigedd penodol wrth adolygu ceisiadau morol, gan argymhell y dylai fod gan awdurdodau archwilio penodedig y cymhwysedd i gynnal asesiadau trylwyr o brosiectau o'r fath. Wrth sôn am gadwraeth forol, tynnodd Ross Evans, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, sylw at y

diffyg data dibynadwy ynghylch ardaloedd morol a'r rhwystrau posibl ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy megis ffermydd gwynt arnofiol ar y môr. Galwodd am ddynodi parthau cadwraeth morol cyn rhoi'r Bil ar waith.

Adrannau 40-51 – Archwilio ceisiadau

105. Mae adrannau 40-51 yn gwneud darpariaethau mewn perthynas ag archwilio ceisiadau.

106. Ystyriwyd disgrisiwn yr awdurdod archwilio i benderfynu ar y dull o archwilio cais – boed yn weithdrefn ysgrifenedig, yn wrandawriad neu'n ymchwiliad. Mynegodd rhai rhanddeiliaid amheuan y gallai'r disgrisiwn hwn achosi ansicrwydd, tra bod eraill yn gwerthfawrogi hyblygrwydd y ddarpariaeth. Roedd Sonny Robinson, Network Rail, yn cefnogi'r hyblygrwydd ond rhybuddiodd yn erbyn gwneud ymholiadau yn ddewis diofyn. Argymhellodd y dylai fod cyfiawnhad dros y dull a ddewisir. Cytunodd NIPA, gan ddweud:

“In order to fast track the delivery of new energy infrastructure in Wales, local inquiries should only be used in exceptional circumstances for the examination of SIP applications. NIPA expects that for most projects the most appropriate form of examination will consist of a primarily written process supplemented by hearings on specific issues where required, e.g. compulsory acquisition or project-specific issues.”

107. Tynnodd RWE Renewables sylw at yr anhawster i geisyddion o ran rhagweld yr adnoddau a'r costau oherwydd y prosesau amrywiol a gyflwynir. Pwysleision nhw y dylai'r meini prawf ar gyfer penderfynu ar y dull gweithredu fod yn dryloyw. Roeddent o'r farn y dylid cadw ymholiadau lleol ar gyfer sefyllfaoedd eithriadol. Roeddent yn rhagweld mai proses ysgrifenedig yn bennaf, wedi'i hategu gan wrandawriadau ar bynciau penodol, megis caffael gorfodol neu faterion penodol i brosiect, fyddai'r dull archwilio mwyaf addas ar gyfer y mwyafrif o brosiectau.

108. Soniodd Liz Dunn, RenewableUK Cymru, am y ddarpariaeth Deddf Cynllunio 2008 sy'n caniatáu i awdurdodau archwilio asesu a yw deunydd a gyflwynir yn ddigon cynhwysfawr ar gyfer archwiliad ystyrlon. Cadarnhaodd fod cynlluniau heb gael eu harchwilio yn Lloegr pan oedd y wybodaeth a

ddarparwyd yn annigonol. Cytunodd James Davies, Cymorth Cynllunio Cymru, a Dr Roisin Willmott, RTPI Cymru, y dylai awdurdod archwilio benderfynu a yw'r deunydd a gyflwynir ar gyfer prosiect yn ddigon cynhwysfawr ar gyfer archwiliad ystyrlon.

109. Argymhellodd Grŵp Cymunedol Llanarthne a'r Cylch yn erbyn Peilonau y dylai cyhoeddi rheoliadau o dan adran 42 fod yn orfodol yn hytrach nag yn ddewisol. Awgrymon nhw hefyd y dylid ehangu'r darpariaethau ar gyfer penodi cwnsler arbenigol, gan ganiatáu ar gyfer dewis unrhyw arbenigwr addas, waeth a yw'r cais yn cael ei asesu ar bapur neu drwy wrandawriad.

Adran 50

110. Mynegodd RWE Renewables bryder ynghylch y pŵer eang a roddir i Weinidogion Cymru yn Adran 50, gan ganiatáu iddynt fandadu archwiliad pellach o gais. Pwysleision nhw'r angen am eglurder yn yr is-ddeddfwriaeth sy'n manylu ar yr amodau y gellid defnyddio'r pŵer hwn odanynt. Roeddent yn credu mai dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid arfer y pŵer hwn. Cytunodd Bute Energy a NIPA, a dywedodd NIPA:

"there is no timescale specified and no indication as to how this would fit within the overall 52-week period in s56(1) - this undermines the 'certainty' objective of the proposed Bill."

Adran 51 – Gorchmynion yn ymwneud â chostau partïon mewn achos archwilio

111. Mynegodd Grŵp Cymunedol Llanarthne a'r Cylch yn erbyn Peilonau bryderon ynghylch darpariaethau yn yr adran hon a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddyroddi costau yn erbyn gwrthwynebydd. Teimlent y gallai darpariaethau o'r fath atal unigolion neu grwpiau cymunedol rhag mynd ar drywydd gwrthwynebiadau dilys oherwydd ofn canlyniadau ariannol.

Rhan 5 - Tystiolaeth gan randdeiliaid

Adran 52 – Penderfynwr

112. Mae adran 52 yn datgan bod gan yr awdurdod archwilio y swyddogaeth o benderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith o ddisgrifiad a bennir mewn

rheoliadau a bod gan Weinidogion Cymru y swyddogaeth o benderfynu ar unrhyw gais arall am gydsyniad seilwaith. Ond gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo bod gan awdurdod archwilio y swyddogaeth o benderfynu ar y cais yn lle Gweinidogion Cymru, neu fod gan Weinidogion Cymru y swyddogaeth o benderfynu ar gais yn lle awdurdod archwilio.

113. Roedd Cyngor Sir Ynys Môn yn gweld yr hyblygrwydd yn Adran 52 fel gwryiad sylweddol oddi wrth normau sefydledig Deddf Cynllunio 2008. Galwon nhw am eglurhad a chanllawiau ar sut y byddai Gweinidogion Cymru yn arfer y disgrisiwn newydd hwn.

114. Mynegodd RSPB Cymru amheuan ynghylch yr amgylchiadau y byddai'r pŵer disgrisiwn yn cael ei ddefnyddio odanynt, gyda chyfeiriadau at bapur ymgynghori 2018 yn nodi y gallai hyn fod mewn sefyllfaoedd a ystyrir yn annadleuol. Pwysleisiodd RSPB Cymru y diffyg democrataidd posibl pe bai penderfyniadau'n cael eu gwneud gan awdurdodau archwilio yn hytrach na swyddogion etholedig. Roeddent yn credu y dylai Gweinidogion Cymru gadw'r pŵer terfynol i wneud penderfyniadau oherwydd eu hatebolrwydd gwleidyddol.

115. Credai Kelvin MacDonald hefyd na ellid gwahanu gwleidyddiaeth o benderfyniadau seilwaith mawr a phwysleisiodd bwysigrwydd atebolrwydd. Roedd Hannah Hickman yn cefnogi'r farn hon.

116. Teimlai Steve Ball, Cyngor Caerdydd, y dylai prosiectau seilwaith cenedlaethol sylweddol fod yn destun penderfyniadau gan Weinidogion. Cynigiodd y dylai'r awdurdod archwilio ymdrin â cheisiadau sy'n disgyn islaw trothwyon penodol, gyda mecanwaith eithrio ar waith ar gyfer ymyrraeth Weinidogol. Roedd Peter Morris, Cyngor Sir Powys, yn niwtral ar y mater. Cyn belled â bod y penderfyniad yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael ei drin yn dryloyw, teimlai nad oedd gwahaniaeth pwy oedd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

117. Roedd Grŵp Cymunedol Llanarthne a'r Cylch yn erbyn Peilonau yn wylidwrus o'r pwerau disgrisiwn o dan yr adran hon. Cynigiodd y grŵp fecanwaith ar gyfer adolygu, apelio a gwrthdroi penderfyniadau o'r fath. Cytunodd Ross Evans, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, fod angen proses apelio. Dadleuodd fod yr unig ddewis presennol—adolygiad barnwrol—yn afresymol o ddrud, yn enwedig i gymunedau.

Adran 53

118. Mae adran 53 yn nodi bod rhaid penderfynu ar geisiadau yn unol ag unrhyw ddatganiad polisi seilwaith sy'n gysylltiedig â'r math o ddatblygiad mae'r cais yn ymwneud ag ef, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF) neu'r Cynllun Morol lle bo'n berthnasol. Pan fo darpariaeth mewn datganiad polisi perthnasol yn anghydnaws â darpariaeth yn yr NDF neu'r Cynllun Morol, rhaid penderfynu ar y cais yn unol â'r datganiad polisi perthnasol.

119. Amlygodd Steve Brooks, CSCC, ddwy farn bosibl ynghylch datganiadau polisi seilwaith. Mae un yn eu gweld fel datganiad atodol i'r NDF a'r Cynllun Morol, gan lenwi bylchau yn ôl yr angen. Mae'r llall yn eu gweld fel cyfres o ddatganiadau polisi seilwaith, sy'n cynnig canllawiau clir ar bolisiau sylfaenol Llywodraeth Cymru. Pa bynnag ddull oedd yn cael ei ffafrio, tanlinellodd yr angen am eglurder a hyder yn yr amgylchedd polisi.

120. Tynnodd Liz Dunn, RenewableUK Cymru, sylw at bwysigrwydd datganiadau polisi cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio 2008, gan bwysleisio eu rôl o ran rhoi eglurder i ddatblygwyr. Cytunodd Matthew Hindle, Wales & West Utilities, y byddai blaenoriaeth y datganiadau polisi seilwaith yn rhoi eglurder i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Daeth Liz Dunn i'r casgliad bod angen haen o ddatganiadau polisi seilwaith, ac y dylent gyd-fynd â'r NDF a'r Cynllun Morol.

121. Mynegodd NIPA bryder ynghylch yr awgrym nad yw Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyflwyno datganiadau polisi heblaw ar gyfer technolegau neu faterion newydd. Dywedodd:

"This is a major concern and NIPA strongly encourages the Welsh Government to reconsider the position and to introduce policy statement(s) covering the development of new energy and transport infrastructure. Whilst Future Wales contains a strong degree of general support for new renewable energy development, NIPA considers that the successful delivery of Wales' renewable energy targets requires the need case for additional energy and transport infrastructure to be expressed in the clearest and strongest possible terms, with a strong starting presumption in favour of development and an acknowledgement that it will not be possible to deliver the

infrastructure required without some residual adverse impacts arising.”

122. Pwysleisiodd Trafnidiaeth Cymru yr angen i sicrhau bod cynlluniau neu bolisiau cenedlaethol yn glir, oherwydd:

“the grounds for a large number of legal challenges to the equivalent legislation in England have been on public policy grounds, there would have to be significant effort from the Welsh Government to ensure that published policy documents for infrastructure projects remain relevant and consistent with other policy set by the Welsh Government.”

123. Mynegodd Dr Roisin Willmott, RTPI Cymru, amheuan ynghylch bod â datganiadau polisi seilwaith niferus. Pwysleisiodd fod y dirwedd bolisi yng Nghymru eisoes yn gadarn, gan enwi'r NDF a 'Pholisi Cynllunio Cymru' fel dogfennau sylfaenol cryf. Fodd bynnag, teimlai y gallai datganiadau polisi seilwaith fod o fudd i dechnolegau newydd a datblygol. Rhybuddiodd yn erbyn creu gormodedd o ddatganiadau polisi seilwaith, a allai lenwi'r dirwedd polisi.

124. I'r gwrthwyneb, credai Dr David Clubb, CSCC, y byddai'n fuddiol bod â datganiadau polisi ar wahân ar gyfer pob sector. Fel hyn, pan nodir bwlch, gellir mynd i'r afael ag ef ar unwaith, a gall y fframwaith sylfaenol aros yn sefydlog gyda diweddariadau anaml.

125. Cydnabu Rhian Jardine, CNC, y gallai datganiadau polisi seilwaith fod yn ddefnyddiol, yn enwedig ar gyfer technolegau newydd a datblygol. Credai nad oedd unrhyw fylchau polisi dybryd ond awgrymodd adolygiad i gadarnhau hyn. Tynnodd sylw at bwysigrwydd cynnal asesiadau amgylcheddol ar gyfer unrhyw ddatganiadau polisi seilwaith newydd, fel y gwnaed ar gyfer yr NDF a'r Cynllun Morol.

126. Teimlai RSPB Cymru nad oedd y Cynllun Morol yn ddigon cynhwysfawr ar gyfer penderfyniadau amgylchedd morol. Ynghyd â'r Gymdeithas Cadwraeth Forol, gwnaethant eirioli o blaid cynllun datblygu morol i fynd i'r afael â bylchau canfyddedig y cynllun. Dywedodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol;

“An additional, much-needed solution to consenting barriers would be the introduction of a marine development plan – covering both inshore and offshore marine areas. This would guide development, within a defined geographical area, by setting out both a spatial planning context and a set of detailed planning policies which decision makers can use to determine individual applications. An assessment and allocation of sites via a marine development plan would provide greater clarity and a degree of acceptability to schemes at an early stage. It can limit the scope of conflict at application stage and thus has the potential to speed up the consenting process whilst also protecting a fragile marine ecosystem.”

127. Tynnodd Kelvin MacDonald sylw at y ffaith er bod y Bil yn nodi y bydd datganiadau polisi yn cael blaenoriaeth dros gynlluniau cenedlaethol, nid yw'r Bil yn gwneud unrhyw ddarpariaeth o ran y broses ar gyfer eu mabwysiadu. Ni fyddai'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiadau hyn gael eu cymeradwyo gan y Senedd. O ystyried pwysigrwydd y dogfennau hyn, awgrymodd efallai yr hoffai'r Pwyllgor ystyried a ddylai gofyniad o'r fath fod ar wyneb y Bil. Cytunodd Annie Smith, RSPB Cymru, ei fod yn destun pryder y byddai datganiadau polisi seilwaith yn cael blaenoriaeth dros gynlluniau cenedlaethol sy'n destun ymgynghoriad cyhoeddus, archwilio a chraffu, megis yr NDF. Teimlai y dylent fynd trwy broses drylwyr, yn debyg i ddatganiadau polisi cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio 2008.

Adran 56 – Yr amserlen ar gyfer penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith

128. Mae adran 56 yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amserlen ar gyfer penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith. Mae is-adran (1) yn datgan bod rhaid i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru benderfynu ar gais o fewn 52 wythnos sy'n dechrau ar y diwrnod y caiff y caiff cais ei dderbyn yn gais dilys o dan adran 32 neu unrhyw gyfnod arall y cytunir arno rhwng yr ymgeisydd a Gweinidogion Cymru. Yn ogystal, mae adran 56(2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru estyn y cyfnodau yn adran 56(1) drwy gyfarwyddyd. Mae adran 56(6) hefyd yn cynnwys pŵer gwneud rheoliadau i alluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r cyfnod o 52 wythnos a bennir yn 56(1)(a).

129. Roedd Kelvin MacDonald yn credu bod yr amserlen 52 wythnos a nodir yn y Bil yn ddiffygiol. Yn ôl Kelvin, er bod y Bil yn benthycu o Ddeddf 2008 o ran dyrannu amser ar gyfer ymchwiliadau, ysgrifennu adroddiadau a gwneud penderfyniadau, mae'n esgeuluso'r cyfnodau cychwynnol sy'n ymwneud ag ymgynghoriadau cyhoeddus, sylwadau a phenderfyniadau ar sut y byddai'r ymchwiliad yn cael ei gynnal. Dadleuodd fod yr hepgoriad hwn yn gwneud yr amserlen yn anymarferol fel y'i drafftwyd.

130. Teimlai NIPA fod hepgor amserlenni ar gyfer rhannau penodol o'r broses yn hepgoriad difrifol. Dywedon nhw:

"We strongly encourage the inclusion of statutory periods for each stage of the examination and decision-making process to provide applicants and other parties with more certainty."

131. Cefnogodd Statkraft a Chymdeithas Porthladdoedd Prydain yr awgrym hwn, gyda Chymdeithas Porthladdoedd Prydain yn dweud:

"Breaking down the overall 52 week period outlined in section 56 of the Bill would be helpful to ensure a timely decision on applications can be made."

132. Credai Bute Energy y dylai fod:

"specific statutory timescales on the face of the Bill to provide a clear expectation for applicants, consultees and Welsh Ministers about the time period allocated for examining and determining SIPs. As drafted, the Bill creates an expectation that timescales can be extended and provides no framework for the circumstances under which this could occur."

133. Tynnodd Rhian Jardine, CNC, sylw hefyd at bwysigrwydd y cyfnod ymgynghori cyn gwneud cais o ran cyflawni'r terfyn amser o 52 wythnos. Derbyniodd y gallai'r amserlen fod yn heriol ar gyfer rhai prosiectau cymhleth. Trafododd Steve Brooks, CSCC, yr angen am hyblygrwydd o dan amgylchiadau nas rhagwelwyd a thynnodd sylw at bwysigrwydd tryloywder yn y broses, gan awgrymu mecanweithiau i sicrhau, os caiff penderfyniad ei ohirio, bod y rhesymeg yn cael ei chyfleu yn glir ac yn dryloyw.

134. Nid oedd Ross Evans, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, yn poeni'n ormodol am yr amserlen 52 wythnos. Fodd bynnag, credai y dylid pennu is-ofynion penodol, yn enwedig yn ymwneud ag ymgynghoriadau cyhoeddus. Cyfeiriodd at achos lle rhoddwyd pum wythnos i'r cyhoedd ymateb i 250 o ddogfennau cyhoeddedig a oedd, yn ei farn ef, yn annigonol.

135. Tynnodd Hannah Hickman sylw at yr hyblygrwydd a ddarperir yn y Bil sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru estyn y cyfnod o 52 wythnos, ond teimlai y gallai fod angen diffinio graddau estyniadau o'r fath.

136. Tynnodd Bute Energy sylw at y ffaith, o dan y broses gydsynio ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (a sefydlwyd gan Ddeddf Cynllunio 2008), pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol yn estyn y terfyn amser ar gyfer penderfynu ar gais ar ôl derbyn adroddiad gan Arolygydd, y byddai'n rhaid gwneud datganiad i'r Senedd yn nodi terfyn amser newydd. Dadleuodd y dylai'r Bil gynnwys darpariaeth gyfatebol mewn perthynas â'r Senedd.

137. Cododd NIPA bryderon ynghylch absenoldeb terfyn amser i Weinidogion Cymru benderfynu a ddylid derbyn cais ai peidio. Dywedon nhw fod angen rhoi sylw i hyn a:

"The inclusion of a statutory time period for validation of SIP applications in primary legislation would provide applicants with greater certainty and help to ensure that the headline 52 week determination period for SIP applications is not undermined by an unduly long or uncertain validation period."

Adran 57 – 59 - Y penderfyniad

138. Mae adrannau 57-59 yn gwneud darpariaeth ynghylch gwneud a hysbysu penderfyniadau gan yr awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru, fel y digwydd.

Adran 57 - Rhoi neu wrthod cydsyniad seilwaith

139. Mewn perthynas ag adran 57, pwysleisiodd NFU Cymru yr angen i awdurdodau archwilio gyflwyno adroddiadau i Weinidogion Cymru ac y dylai'r penderfyniadau terfynol ar geisiadau gael eu gwneud gan Weinidogion.

140. Roedd RSPB Cymru yn pryderu bod adran 57(5) yn awgrymu na fyddai gan Weinidogion Cymru unrhyw ddisgresiwn i wrthod rhoi gorchymyn cydsyniad seilwaith pe bai awdurdod archwilio wedi penderfynu y dylid ei roi. Gofynnwyd am sicrwydd mai Gweinidogion fyddai â'r pŵer i wneud penderfyniadau terfynol, yn enwedig mewn achosion cynhennus neu amgylcheddol arwyddocaol.

141. Mynegodd Bute Energy bryder ynghylch geiriad adran 57(6). Dywedon nhw:

“Section 57(6), which allows Welsh Ministers to grant consent for a ‘materially different’ proposal, raises concerns as currently worded. Again, the regulatory provisions for this will be key to understanding how this mechanism is to work and in what context. The current wording suggests that applicants could potentially receive consent for a ‘materially different’ proposal. This would undoubtedly give rise to objections from statutory consultees who may have not been afforded the opportunity to comment on the alternative proposal.”

Adran 59 - Rhesymau dros benderfynu rhoi neu wrthod cydsyniad seilwaith

142. O ran adran 59, teimlai Grŵp Cymunedol Llanarthne a'r Cylch yn erbyn Peilonau fod y Bil yn amwys ynghylch y bobl y dylai Gweinidogion Cymru gyfleu eu penderfyniad iddynt. Tynnnon nhw sylw hefyd at y diffyg eglurder ynghylch a fyddai'r penderfyniad yn sôn am unrhyw wrthwynebiadau a gafwyd a'r rhesymau dros eu derbyn neu eu gwrthod. Roedd y grŵp o'r farn ei bod yn hanfodol hysbysu'r holl wrthwynebwyr yn uniongyrchol am y penderfyniad, yn enwedig gan fod y Bil yn caniatáu cyfnod o chwe wythnos yn unig ar gyfer ffeilio cais am adolygiad barnwrol ar ôl y penderfyniad ar y cais.

143. Ailadroddodd NFU Cymru eu safbwynt ar yr angen am dryloywder wrth esbonio'r rhesymeg y tu ôl i unrhyw benderfyniad i roi neu wrthod cydsyniad seilwaith.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

144. Gofynnwyd i'r Gweinidog ynghylch ei bwriadau mewn perthynas â phŵer adran 41, i archwiliadau gael eu cynnal mewn gwrandawriad, mewn ymchwiliad lleol neu drwy unrhyw gyfuniad o'r gweithdrefnau hyn. Dywedodd ei bod yn

disgwyl y byddai ymchwiliadau cyhoeddus yn eithaf eithriadol a chadarnhaodd fod y ddarpariaeth wedi'i chynnwys yn y Bil i roi hyblygrwydd.

145. Gan gyfeirio at y darpariaethau yn y Bil sy'n caniatáu i'r awdurdod archwilio neu Weinidogion Cymru wneud y penderfyniad, dywedodd y Gweinidog:

"We anticipate that the majority of the decisions will be for the Welsh Ministers to make. I suppose this gives us the flexibility where something becomes more routine to allow the examining authority to do it without having to go through the additional Welsh Ministers' loop."

146. Gofynnodd y Pwyllgor a ddylai'r Bil gynnwys darpariaeth sy'n cyfateb i adran 55 o Ddeddf Cynllunio 2008, sy'n caniatáu i awdurdod archwilio ystyried a yw'r deunydd a gyflwynir yn ddigon cynhwysfawr i ganiatáu i archwiliad ystyrlon gael ei gynnal. Dywedodd y Gweinidog ei bod hi'n credu bod gan awdurdod archwilio y gallu eisoes i ofyn am ragor o wybodaeth os yw ei hangen. Ymhelaethodd swyddog a oedd gyda'r Gweinidog ar hyn, gan ddweud:

"It might not be on the face of the Bill, but that is the process that is followed as part of the examination."

Yr amserlen

147. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog ymateb i farn rhanddeiliaid bod gormod o hyblygrwydd yn y Bil i newid yr amserlenni ar gyfer penderfynu ar geisiadau. Dywedodd y Gweinidog:

"We think that the overarching timetable should be set on the face of the Bill, so that's 52 weeks... It's very similar to the Planning Act 2008. Then the sub-time frames, like the period of time to validate an application or the examination period and so on, will be in the regulations, so that we can keep them under review if things aren't working out."

148. Mewn ymateb i'r awgrym y dylid gwneud datganiad i'r Senedd, mewn amgylchiadau pan fo Gweinidogion Cymru yn dymuno estyn y terfyn amser ar gyfer penderfynu ar gais, awgrymodd y Gweinidog y gallai hyn arwain at oedi a chwestiynodd ddiben a budd y cynnig.

Datganiadau polisi seilwaith

149. Nid oedd y Gweinidog o'r farn bod angen creu cyfres gynhwysfawr o Ddatganiadau Polisi Seilwaith, yn cwmpasu pob un o'r meysydd yn Rhan 1. Roedd y Gweinidog yn bendant nad oedd unrhyw amwysedd yn yr NDF na'r Cynllun Morol. Wrth drafod a oes bylchau polisi mewn perthynas â'r meysydd yn Rhan 1, dywedodd swyddog a oedd gyda'r Gweinidog:

"I haven't come across any DNS applications where we haven't got a policy basis to make decisions, for example, although, saying that, if something novel comes along, we may need a policy statement to address that gap. But we don't see any at the moment."

150. Cadarnhaodd swyddog a oedd gyda'r Gweinidog hierarchaeth y polisiau a fydd yn cael eu hystyried o dan y gyfundrefn newydd:

"Currently, as the Bill is drafted, if there was any conflict between the policy statements and the NDF or the marine plan, then the policy statement would have precedence. We are re-examining that..."

151. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog ymateb i'r pwynt ei bod yn bosibl na fyddai dogfen a ddynodwyd yn ddatganiad polisi seilwaith at ddibenion y Ddeddf, yn unol ag adran 124, yn destun unrhyw graffu gan y Senedd, yn wahanol i'r NDF. Ymatebodd y Gweinidog y bydd datganiadau polisi seilwaith yn ddarostyngedig i'r holl ymgysylltu ymgynghori, yr egwyddorion datblygu cynaliadwy a phum ffordd o weithio deddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol yn yr un modd â phob dogfen bolisi arall y llywodraeth. Ychwanegodd y byddai'n ystyried cynigion gan y Pwyllgor ar y mater hwn.

Ein barn ni

Adran 41

Nodwn sylwadau'r Gweinidog y bydd y defnydd o ymchwiliadau cyhoeddus yn eithriadol. Rydym yn croesawu'r darpariaethau yn y Bil bod rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r meini prawf ar gyfer penderfynu ar y dull gweithredu. Fodd

bynnag, unwaith eto, nid yw'n bosibl i'r Pwyllgor wneud dyfarniad ar fanylion y ddarpariaeth gan eu bod yn absennol o'r Bil. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru, mewn ymateb i'r Adroddiad hwn, nodi'r amgylchiadau y mae'n ystyried y gellid penderfynu ar gais drwy ymchwiliad odanynt.

Adran 52

Rydym yn croesawu sylwadau'r Gweinidog mai Gweinidogion Cymru yn hytrach na'r Awdurdod Archwilio fydd yn gwneud y rhan fwyaf o'r penderfyniadau. Cytunwn, fodd bynnag, â rhanddeiliaid y dylai Gweinidogion Cymru, fel mater o egwyddor, wneud penderfyniadau ar brosiectau seilwaith arwyddocaol yn seiliedig ar adroddiad awdurdod archwilio.

Credwn y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i sicrhau mai Gweinidogion Cymru yw'r penderfynwyr diofyn ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol. Rydym yn pwysleisio y byddem yn fodlon i rai o ddarpariaethau adran 52(4)(a) aros fel y gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo bod gan awdurdod archwilio y swyddogaeth o benderfynu ar y cais o dan rai amgylchiadau. Dylai rheoliadau nodi'r meini prawf y mae'n rhaid eu cymhwyso wrth wneud cyfarwyddyd o'r fath.

Beth bynnag, dylai'r Gweinidog gyhoeddi'r meini prawf ar gyfer penderfynu ar gyfarwyddyd o dan adran 52.

Adran 53

Mae'r darpariaethau yn adran 53 yn rhan sylfaenol o'r gyfundrefn newydd. Fel y'i drafftwyd, maent yn nodi bod datganiadau polisi seilwaith yn cael blaenoriaeth dros gynlluniau cenedlaethol megis yr NDF a'r Cynllun Morol. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod hyn yn cael ei ail-ystyried.

Mae'r ffaith bod mater mor sylfaenol yn cael ei ystyried yn ystod taith y Bil drwy'r Senedd yn destun pryder. Credwn y dylai'r Gweinidog esbonio'r rhesymau dros hyn.

Nodwn i'r Gweinidog ddweud wrthym mai dim ond ar gyfer meysydd polisi newydd y bydd datganiadau polisi seilwaith yn angenrheidiol. Dywedodd nad

oes unrhyw fylchau polisi yn yr NDF na'r Cynllun Morol. Fodd bynnag, clywsom farn gyferbyniol gan lawer o gyfranwyr at waith y Pwyllgor.

Rydym yn pryderu bod barn y Gweinidog yn un gwbl groes i farn cyfranwyr. Disgwylwn i'r Gweinidog ymgysylltu â rhanddeiliaid i gyrraedd rhyw dir cyffredin ynghylch yr angen am y datganiadau polisi hyn. Credwn fod hyn yn arbennig o wir am y Cynllun Morol, y mae rhanddeiliaid wedi codi pryderon parhaus yn ei gylch, ac sydd wedi bod yn destun nifer o argymhellion gan y Pwyllgor hwn yn y blynyddoedd diwethaf.

Nodwn y sylwadau am statws datganiadau polisi seilwaith. Er gwaethaf sylwadau'r Gweinidog am yr angen amdanynt, cytunwn fod rhinwedd mewn sicrhau, fel yn achos Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn Neddf Cynllunio 2008, bod proses graffu seneddol ynghlwm wrthynt. Dylent gael eu hystyried a'u cytuno gan y Senedd.

Nodwn fod adran 124 yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru ddynodi dogfen yn ddatganiad polisi seilwaith at ddiben y Bil. O dan amgylchiadau o'r fath, credwn y dylai'r Gweinidog hysbysu'r Senedd. At hynny, os nad yw unrhyw ddogfen bolisi o'r fath wedi cael ei hystyried a'i chytuno gan y Senedd yn flaenorol, dylai hynny ddigwydd cyn y gellir ei dynodi felly.

Adran 56 – Yr amserlen ar gyfer penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith

Ar y cyfan, roedd rhanddeiliaid yn cefnogi'r amserlen gyffredinol o 52 wythnos ar gyfer penderfynu ar gais am gydsyniad seilwaith. Fodd bynnag, y farn gyffredinol oedd y dylai hyn gynnwys amserlenni ar gyfer cyflawni'r rhannau ar wahân o fewn y 52 wythnos hynny. Rydym yn falch bod y Gweinidog wedi nodi ei bod yn cytuno â hyn a nodwn y caiff hyn ei gyflawni mewn rheoliadau. Mewn egwyddor, rydym yn cytuno â'r angen am hyblygrwydd, ond rydym yn gresynu'r diffyg tryloywder oherwydd y dull hwn.

Credwn y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i nodi ar wyneb y Bil amserlen fanwl ar gyfer y cyfnod o 52 wythnos ar gyfer penderfynu ar gais. Nodwn na ymgynghorwyd â rhanddeiliaid ar y cynigion manwl hyn – mae hyn yn anffodus. Fodd bynnag, ni ddylid ei ddefnyddio fel esgus i beidio â gwella'r Bil.

Rydym yn cynnig, fel man cychwyn, y dylai'r amserlenni ar wyneb y Bil fod yr un fath â Deddf Cynllunio 2008. Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gwelliant i'w galluogi i ddiwygio'r amserlenni penodol hynny drwy is-ddeddfwriaeth (pwerau Harri VIII fel y'u gelwir). Mae'r Gweinidog yn mabwysiadu dull tebyg mewn manau eraill yn y Bil hwn ac mae wedi gwneud hynny mewn Deddfau eraill, felly ni welwn unrhyw reswm iddi wrthwynebu mewn egwyddor.

Credwn y dylai'r Gweinidog ymgynghori â rhanddeiliaid cyn gynted â phosibl i sicrhau bod yr amserlenni ar wyneb y Bil yn briodol. Os yw hi'n credu, o ganlyniad i'r ymgynghoriad, bod angen eu newid, gellir cyflawni hynny drwy is-ddeddfwriaeth.

Rydym yn cytuno â'r awgrym gan rhanddeiliaid, pe bai'r Gweinidog yn penderfynu y dylid estyn y cyfnod o 52 wythnos, bod rhaid i'r Gweinidog hysbysu'r Senedd drwy ddatganiad ysgrifenedig. Bydd hyn yn sicrhau tryloywder ynghylch y rhesymau dros yr angen i estyn y cyfnod. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i roi effaith i hyn.

Argymhellion

Argymhelliad 16. Mewn ymateb i'r Adroddiad hwn, dylai'r Gweinidog nodi'r amgylchiadau lle mae'n ystyried y gellid penderfynu ar gais drwy ymchwiliad.

Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i sicrhau mai Gweinidogion Cymru yw'r penderfynwyr diofyn ar gyfer prosiectau seilwaith arwyddocaol. Er gwaethaf hyn, dylai'r Gweinidog sicrhau bod y Bil yn cynnwys darpariaethau i alluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo bod gan awdurdod archwilio y swyddogaeth o benderfynu ar y cais o dan amgylchiadau penodol penodedig. Dylai rheoliadau bennu'r meini prawf y mae'n rhaid eu cymhwyso wrth wneud cyfarwyddyd o'r fath.

Argymhelliad 18. Dylai'r Gweinidog gyhoeddi'r meini prawf ar gyfer penderfynu ar gyfarwyddyd o dan adran 52.

Argymhelliad 19. Dylai'r Gweinidog esbonio pam yr oedd y mater o flaenoriaeth datganiadau polisi seilwaith dros gynlluniau cenedlaethol yn dal i gael ei ystyried ar ôl cyflwyno'r Bil.

Argymhelliad 20. Dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid i fynd i'r afael â phryderon am yr angen am ddatganiadau polisi seilwaith o dan adran 53 i lenwi bylchau polisi mewn cynlluniau cenedlaethol.

Argymhelliad 21. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i sicrhau bod datganiadau polisi seilwaith yn cael eu hystyried a'u cytuno gan y Senedd.

Argymhelliad 22. Pan fo Gweinidogion Cymru, yn unol ag adran 124, yn penderfynu dynodi dogfen yn ddatganiad polisi seilwaith at ddiben y Bil, dylai'r Gweinidog hysbysu'r Senedd. Dylai'r Gweinidog sicrhau bod y Senedd wedi ystyried a chytuno ar y ddogfen cyn y gellir gwneud unrhyw ddynodiad o'r fath.

Argymhelliad 23. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i nodi ar wyneb y Bil amserlen fanwl ar gyfer y cyfnod o 52 wythnos ar gyfer penderfynu ar gais.

Argymhelliad 24. Dylai'r Gweinidog ymgynghori â rhanddeiliaid cyn gynted â phosibl i sicrhau bod yr amserlenni ar wyneb y Bil yn briodol. Os yw hi'n credu, o ganlyniad i'r ymgynghoriad, fod angen eu newid, gellir cyflawni hynny drwy is-ddeddfwriaeth.

Argymhelliad 25. Os yw'r Gweinidog yn penderfynu estyn y cyfnod o 52 wythnos yn unol ag adran 56(2), rhaid i'r Gweinidog hysbysu'r Senedd drwy ddatganiad ysgrifenedig. Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i roi effaith i hyn.

6. Rhannau 6 a 7 - Gorchmynion cydsyniad seilwaith a Gorfodi

152. Mae Rhan 6 yn ymwneud â gorchmynion cydsyniad seilwaith, gan gynnwys yr hyn a all fod yn rhan o orchymyn cydsyniad seilwaith, darpariaethau ynghylch gorchmynion sy'n awdurdodi prynu gorfodol a'r weithdrefn ar gyfer cyhoeddi gorchmynion cydsyniad seilwaith.

153. Mae Rhan 7 yn cynnwys darpariaethau ynghylch troseddau sy'n ymwneud â datblygu heb gydsyniad seilwaith, torri telerau gorchymyn cydsyniad seilwaith, neu fethiant i gydymffurfio â'r telerau hynny, a'r gallu i gyflwyno hysbysiadau datblygiadau anawdurdodedig.

Rhan 6 - Tystiolaeth gan randdeiliaid

Adrannau 61 – 69 - Darpariaeth mewn gorchmynion sy'n awdurdodi caffael yn orfodol

154. Mae adrannau 61 a 62 yn nodi na chaiff gorchymyn cydsyniad seilwaith gynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi caffael tir yn orfodol oni bai bod Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod meini prawf penodedig mewn perthynas â'r tir yn cael eu bodloni.

155. Wrth gyfeirio at adran 61, pwysleisiodd NFU Cymru bwysigrwydd sicrhau bod caffaeliadau tir gorfodol yn cael eu cyfyngu'n llym i'r hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer cwblhau gwaith perthnasol. Roeddent o'r farn y dylid caffael cyn lleied o dir â phosibl, gan sicrhau nad oedd gormod o dir yn cael ei gymryd na bod tir yn cael ei gymryd yn ddiangen.

156. Roedd gan Grŵp Cymunedol Llanarthne a'r Cylch yn erbyn Peilonau amheuron ynghylch adran 62(1)(b). Roeddent yn credu y dylid bodloni o leiaf ddau o'r amodau a restrir yn is-adrannau (2), (3), a (4), yn hytrach nag un yn unig, cyn y gall gorchymyn cydsyniad gynnwys darpariaethau ar gyfer prynu gorfodol.

Adran 72 – Diddymu hawliau etc.

157. Cyfeiriodd Sonny Robinson, Network Rail, at adran 72 a phwysleisiodd bwysigrwydd sicrhau nad yw unrhyw benderfyniadau yn rhwystro rhwymedigaethau statudol Network Rail. Pwysleisiodd yr angen am ddeialog a chonsensws rhwng datblygwyr seilwaith ac ymgymerywyr statudol i ddeall effeithiau posibl penderfyniadau o'r fath. Roedd yn cyferbynnu adran 72 ag adran 65, gan nodi bod adran 65 yn darparu meini prawf cliriach ar arferion derbyniol yn ymwneud â phrynu tir ymgymerywyr statudol yn orfodol.

Adran 73 – Tir y Goron

158. O ran tir y Goron, credai RWE y dylid cyfyngu'r angen i gaffael cymeradwyaeth gan awdurdod cyfatebol y Goron i bwerau prynu gorfodol yn unig. Gan dynnu o'u profiadau blaenorol, nodwyd ganddynt fod rhai o endidau'r Goron yn mynnu esboniadau trwyadl er mwyn cymhwyso darpariaethau gorchymyn i bob darn o dir y Goron, gan arwain at oedi a threuliau gormodol.

Adrannau 86 – 90 - Gwneud newidiadau i orchymynion cydsyniad seilwaith a'u dirymu

159. Er bod RWE yn cefnogi'r pŵer i gywiro gwallau yn y Bil, cyfeirion nhw at eu profiadau blaenorol gyda Deddf Cynllunio 2008, lle'r oedd gorchymynion cydsyniad datblygu terfynol yn aml yn cynnwys mân gamgymeriadau. Roeddent o'r farn bod y weithdrefn lle mae angen i geisydd ofyn am gywiriadau yn aneffeithlon, gan awgrymu, er mwyn lleihau oedi o'r fath, y gallai Gweinidogion Cymru rannu fersiwn derfynol arfaethedig o orchymynion cydsyniad seilwaith gyda'r geisydd i fynd i'r afael ag unrhyw fân faterion drafftio.

Adrannau 91 – 98 - Effaith gorchymynion cydsyniad seilwaith

160. Roedd Cyngor Dinas Casnewydd yn pryderu bod y diffiniad o "gweithrediad perthnasol" yn adran 92 yn amwys. Cyfeirion nhw at adran 56(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, a oedd yn darparu enghreifftiau penodol o weithrediad perthnasol, ac awgrymon nhw y dylai'r Bil fod yn gliriach.

Rhan 7 - Tystiolaeth gan randdeiliaid

Adrannau 100 – 107 – Troseddau

161. Roedd Cyngor Dinas Casnewydd yn credu bod y cynigion ar gyfer gorfodi yn anymarferol. Nodwyd amwysedd yn adrannau 100 a 101 ynglŷn â phwy fyddai'n gyfrifol am ddwyn cyhuddiad, boed yr Awdurdod Cynllunio Lleol, Gweinidogion Cymru neu endid arall.

162. Cytunodd Steve Ball, Cyngor Caerdydd. Roedd yn bryderus am oblygiadau cyflwyno trosedd am dorri rheolau cynllunio. Roedd James Good, NIPA, yn ansicr ynghylch sut y byddai'r darpariaethau hyn yn gymwys yn ymarferol. Nododd nad oedd unrhyw gamau, hyd y gwyddai, wedi'u cymryd yn erbyn Prosiect Seilwaith Arwyddocaol Cenedlaethol (NSIP) yn Lloegr.

163. Mynegodd CNC bryderon am yr adran orfodi mewn perthynas â Thrwyddedau Morol. Er bod CNC yn cyfrannu at gyflawni amodau, yn enwedig mewn perthynas â thrwyddedau morol tybiedig, nid oes ganddynt yr awdurdod i orfodi Trwyddedau Morol. Llywodraeth Cymru sydd â'r swyddogaeth orfodi hon o hyd. Roedd CNC yn cydnabod y ddarpariaeth yn adran 107 sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ddynodi personél gorfodi morol. Roeddent yn disgwyl y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau â'i rôl bresennol o oruchwylio gorfodi ar gyfer trwyddedau morol.

Adrannau 108 – 109 - Hysbysiadau gwybodaeth

164. Credai NFU Cymru y dylid cynyddu'r cyfnod a nodir yn adran 109 (1) o 21 diwrnod i 28 diwrnod, o ystyried bod y ddarpariaeth hon yn cynnwys trosedd.

Adran 110 - Hysbysiadau datblygiad anawdurdodedig

165. Nododd Cyngor Dinas Casnewydd mai dim ond ar ôl i unigolyn gael ei gyhuddo a'i ddyfarnu'n euog o drosedd y byddai'r darpariaethau'n berthnasol. O ystyried hyd posibl achosion cyfreithiol a'r ddibyniaeth ar benderfyniadau llys, gallai hyn achosi oedi sylweddol yn y broses orfodi.

Adrannau 114 – 119 - Hysbysiadau stop dros dro

166. Dywedodd Cyngor Dinas Casnewydd mai dim ond am gyfnod byr o 28 diwrnod y gellid cyflwyno'r hysbysiadau stop hyn. O ystyried yr amser sydd ei angen i ymchwilio i unigolyn a'i gyhuddo, gallai hysbysiad dros dro o'r fath fod yn aneffeithiol. Yn ogystal, roedd yn ymddangos nad oedd unrhyw ddarpariaethau yn y Bil ar gyfer apelio yn erbyn hysbysiadau o'r fath.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

Tir y Goron

167. Gan gyfeirio at yr awgrym y dylai'r angen i gael cydsyniad awdurdod priodol y Goron gael ei gyfyngu i bwerau caffael gorfodol yn unig, ac nid ar gyfer darpariaethau eraill mewn gorchymyn sy'n ymwneud â thir y Goron, dywedodd swyddog a oedd gyda'r Gweinidog fod y darpariaethau yn y Bil yn adlewyrchu arferion arferol. Ychwanegodd:

“Any provisions that affect Crown land need to obtain the consent of the Crown authority, otherwise it cannot be incorporated as part of the infrastructure consent order, and that should be obtained as soon as possible.”

168. Ychwanegodd y Gweinidog y byddai'n disgwyl i ddatblygwyr ddechrau trafodaethau â thirfeddianwyr perthnasol yn gynnar yn y broses.

Gorfodi

169. Ymatebodd y Gweinidog i bryderon ynghylch eglurder y darpariaethau gorfodi yn y Bil. Dywedodd:

“By and large, the enforcement is done by the local planning authority, unless there are very specific national reasons not to do so. I think probably colleagues on the committee are very aware of the one that we've recently overreached a local planning authority for, and you'll see that that's been in the news for a long time, and it's a really big deal. And that's what we're saying here. So, I think it's pretty straightforward— it's the local planning authority, unless there's some huge national

significance reason why the Welsh Ministers should enforce. For offshore, we're the enforcement authority anyway."

170. Ychwanegodd y byddai eglurhad pellach yn cael ei ddarparu mewn canllawiau, pe bai angen.

Ein barn ni

Nodwn y pryderon a fynegwyd gan gynrychiolwyr llywodraeth leol ynghylch sut y byddai'r darpariaethau gorfodi'n gweithio yn ymarferol.

Mae'r Gweinidog wedi nodi bod camau gorfodi yn debygol o fod yn brin gan fod goblygiadau ariannol camau o'r fath yn risg rhy fawr i ddatblygwyr. Dywedodd hefyd y byddai cymorth yn cael ei roi i awdurdodau cynllunio lleol pe bai angen cymryd camau gorfodi.

O ran effaith hysbysiadau stop, credwn y dylai'r Gweinidog archwilio a yw "pwerau clo" neu "padlock powers" fel y'u gelwir, a fyddai'n sicrhau bod gwaith yn dod i stop ar unwaith, yn angenrheidiol ac yn ddymunol yn y Bil hwn.

Credwn hefyd y dylai'r Gweinidog sicrhau bod y cyhoedd yn deall yn glir y ffyrdd y gallant godi unrhyw bryderon sydd ganddynt mewn perthynas â datblygiadau mewn da bryd. Dylai'r Gweinidog egluro sut bydd y Bil yn darparu ar gyfer hyn.

Rydym yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog y bydd canllawiau'n cael eu darparu ar gymhwysu'r darpariaethau hyn.

Argymhelliad

Argymhelliad 26. Dylai'r Gweinidog nodi'r cymorth a fydd ar gael i awdurdodau cynllunio lleol pan fo angen cymryd camau gorfodi.

Argymhelliad 27. Dylai'r Gweinidog ystyried a ddylai darpariaethau ar "bwerau clo" neu "padlock powers" fel y'u gelwir mewn perthynas â hysbysiadau stop dros dro gae eu cynnwys yn y Bil.

Argymhelliad 28. Dylai'r Gweinidog egluro mewn canllawiau y ffyrdd y gall y cyhoedd godi pryderon am ddatblygiad anawdurdodedig.

7. Rhannau 8 a 9 - Swyddogaethau Atodol a Darpariaethau Cyffredinol

Rhan 8 - Swyddogaethau Atodol

171. Mae Rhan 8 yn darparu nifer o swyddogaethau atodol, ar gyfer Gweinidogion Cymru yn bennaf, i hwyluso gweithrediad y system a sefydlir gan y Bil ac i roi pwerau i Weinidogion Cymru addasu'r system drwy ddatgymhwyso ei ofynion neu drwy wneud darpariaeth arbennig ar gyfer ceisiadau gan y Goron (sy'n cynnwys swyddfeydd a chyrrff y Goron).

Tystiolaeth gan randdeiliaid

Adran 121 - Ffioedd am gyflawni swyddogaethau a darparu gwasanaethau cydsyniad seilwaith

172. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch codi ffioedd gan awdurdod cyhoeddus penodedig am gyflawni swyddogaeth cydsyniad seilwaith ac am ddarparu gwasanaeth cydsyniad seilwaith.

173. Dywedodd CLILC wrth y Pwyllgor:

"It is expected that the proposed approach will result in prospective applicants wishing to front-load the preparation of Significant Infrastructure Project applications in order to ensure that applications are sound at the time of their submission. Prospective applicants can be expected to want to engage early with Local Authorities in order to ensure issues are addressed by the time of submission and that Local Impact Reports are positive and favourable. As such Local Authorities can be expected under the proposed regime to be placed under further and increased demands to engage and support the early development and evolution of Significant Infrastructure Projects. This has resource and capacity implications for Local Authorities."

174. Lleisiodd Cyngor Sir Ynys Môn bryderon am y baich ariannol a roddir ar awdurdodau cynllunio gan rwymedigaethau ymgynghori ac ymateb. Canfu'r Cyngor fod adrannau 30, 35, a 126(2) – sy'n ymwneud ag ymgynghori cyn gwneud cais, adroddiadau effaith lleol a'r gofyniad i ymateb i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru - yn arbennig o ddwys o ran adnoddau.

175. Pwysleisiodd CNC bwysigrwydd bod â digon o adnoddau i ymateb i geisiadau, a bod ffioedd yn rhan annatod sicrhau'r adnoddau hynny. Awgrymon nhw y dylai ymgynghoreion fod â'r grym i lunio eu systemau codi tâl eu hunain, gyda chytundeb y Gweinidog.

Adrannau 122 a 123 - Pwerau mynediad i gynnal arolwg o dir

176. Mynegodd Grŵp Cymunedol Llanarthne a'r Cylch yn erbyn Peilonau bryderon ynghylch adran 122(2). Roeddent yn cwestiynu ystyr yr ymadrodd "prosiect o sylwedd gwirioneddol " ac yn pwysleisio'r angen am ddiffiniad clir. Credai'r grŵp y dylai'r broses o benderfynu a yw maen prawf mynediad wedi'i fodloni gael ei chynnal yn wrthrychol. Roeddent yn dadlau mai dim ond ar ôl cyhoeddi'r adroddiad ar yr ymgynghoriad cyn gwneud cais y dylid rhoi unrhyw awdurdodiad, gan fynnu y dylai'r Gweinidogion ystyried yr adroddiad hwn wrth wneud eu penderfyniadau.

177. Roedd NFU Cymru yn anfodlon ag adran 122(9), a oedd yn dynodi bod person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored i ddirwy ar euogfarn ddiannod. Gan gyfeirio at Ddeddf Cynllunio 2008, roedd NFU Cymru o'r farn y dylai fod terfyn uchaf wedi'i ddiffinio'n glir i unrhyw ddirwy o'r fath. Awgrymon nhw, yn unol â Deddf Cynllunio 2008, y dylid gosod y cap ar lefel 3 ar y raddfa safonol.

Adran 126 - Pŵer i ymgynghori a dyletswydd i ymateb i ymgynghoriad

178. Mae adran 126 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru neu awdurdod archwilio ymgynghori ag awdurdod cyhoeddus a bennir mewn rheoliadau fel rhan o'r broses archwilio, a chanlyniad hynny yw bod dyletswydd ar yr awdurdod cyhoeddus i roi ymateb o sylwedd i'r ymgynghoriad hwnnw o fewn amserlen benodedig.

179. Roedd RWE Renewables yn cefnogi ychwanegu rhwymedigaeth i ymgylgoreion ymateb i ymgynghoriadau. Yn ogystal, roeddent yn cefnogi'r pŵer a roddwyd i Weinidogion Cymru i fandadu camau gweithredu penodol gan awdurdodau cyhoeddus ynghylch cais. Fodd bynnag, pwysleisiwyd ganddynt yr angen i'r pwerau statudol hyn gael eu hadlewyrchu wrth ddyrannu adnoddau a chyllid ar gyfer ymgylgoreion.

180. Nododd Network Rail berthnasedd yr adran hon i'w gweithrediadau. Gofynnodd Network Rail am gael ei gydnabod yn benodol fel ymgynghorai statudol yn y broses cydsyniad seilwaith.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

181. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog am optimeiddio'r strwythur ffioedd, a'r dystiolaeth y byddai datblygwyr yn barod i dalu ffioedd uwch yn gyfnewid am lefel warantedig o wasanaeth. Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog nad oedd y broblem yn ymwneud â ffioedd yn unig, ond hefyd sgiliau ac arbenigedd:

"So, it isn't just about the level of the fees, is it? I'm smiling because one of the conversations I have with developers all the time is that it's no good them complaining to me that the local planning authority is going slowly when they've just fished three of the local planners out of the planning authority to work on their application."

182. Esboniodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag awdurdodau cynllunio lleol i geisio lliniaru'r broblem hon. Roedd hyn wedi cynnwys sicrhau bod gan y llywodraeth strwythur gyrfaoedd cynllunio priodol a bod yr awdurdodau cynllunio lleol yn gallu dal gafael ar bobl.

Ein barn ni

Fel y nodir yn y Bennod ar egwyddorion cyffredinol y Bil, roedd adnoddau'n fater allweddol i lawer o'r rhai a gyfrannodd at waith craffu'r Pwyllgor. Roeddem yn falch bod y Gweinidog wedi gallu ymrwymo i'r egwyddor o adennill costau'n llawn. Fodd bynnag, nodwyd pryder ymhlith ymgylgoreion a chynrychiolwyr awdurdodau cynllunio lleol y byddai mwy o alw ar adnoddau prin o dan y gyfundrefn newydd. Nid oedd rhanddeiliaid yn rhannu

optimistiaeth y Gweinidog y byddai'r effaith ar adnoddau'n lleihau dros amser, wrth i'r dull newydd, symlach ennill ei blwyf.

Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y ddadl Cyfnod 1 ar drafodaethau ag ymgylgoreion, awdurdodau cynllunio lleol a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â sut y gellir adennill costau'n llawn.

Nodwn sylwadau gan rhanddeiliaid mewn perthynas ag adran 122. Credwn y dylai'r Gweinidog esbonio ei dealltwriaeth o ystyr prosiect o "sylwedd gwirioneddol" a lefel y ddirwy y gellir ei rhoi am drosedd o dan yr adran hon.

Argymhellion

Argymhelliad 29. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y ddadl Cyfnod 1 ar drafodaethau ag ymgylgoreion, awdurdodau cynllunio lleol a rhanddeiliaid eraill ynglŷn â sut y gellir adennill costau'n llawn.

Argymhelliad 30. Dylai'r Gweinidog esbonio ei dealltwriaeth o ystyr prosiect o "sylwedd gwirioneddol" a lefel y ddirwy y gellir ei rhoi am drosedd o dan yr adran hon.

Atodiad 1: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
6 Gorffennaf 2023	Julie James AS - y Gweinidog Newid Hinsawdd, Llywodraeth Cymru Neil Hemington, Llywodraeth Cymru Owen Struthers, Llywodraeth Cymru Nicholas Webb, Llywodraeth Cymru
13 Medi 2023 Panel 1	Hannah Hickman, Prifysgol Gorllewin Lloegr Kelvin MacDonald, Prifysgol Caergrawnt
13 Medi 2023 Panel 2	Sara Morris, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Steve Ball, Rheolaeth Datblygu, Cyngor Caerdydd Peter Morris, Cyngor Sir Powys
20 Medi 2023 Panel 1	Lisa Phillips, Cyfoeth Naturiol Cymru Rhian Jardine, Cyfoeth Naturiol Cymru Dr David Clubb, Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru Steve Brooks, Aelod o Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

Dyddiad	Enw a Sefydliad
20 Medi 2023 Panel 2	James Davies, Cymorth Cynllunio Cymru Dr Roisin Willmott, Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru
28 Medi 2023 Panel 1	James Good, Y Gymdeithas Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol Eleri Davies, RWE Renewables UK Y Gymdeithas Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol
28 Medi 2023 Panel 2	Liz Dunn, RenewableUK Cymru Tom Hill, Ynni Morol Cymru Matthew Hindle, Wales & West Utilities
28 Medi 2023 Panel 3	Gwyn Rees, Network Rail Geoff Ogden, Trafnidiaeth Cymru
28 Medi 2023 Panel 4	Annie Smith, RSPB Cymru Ross Evans, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
18 Hydref 2023	Julie James AS - y Gweinidog Newid Hinsawdd, Llywodraeth Cymru Neil Hemington, Llywodraeth Cymru Owen Struthers, Llywodraeth Cymru Nicholas Webb, Llywodraeth Cymru

Atodiad 2: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar wefan y Pwyllgor.

Cyfeirnod	Sefydliad
IWB 01	Unigolyn 01
IWB 02	Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
IWB 03	Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru
IWB 04	Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru
IWB 05	Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru
IWB 06	Cyngor Sir Ynys Môn
IWB 07	Cyngor Dinas Casnewydd
IWB 08	Unigolyn 08
IWB 09	Cwmni Eginio
IWB 10	Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod
IWB 11	SP Energy Networks
IWB 12	MaresConnect Limited
IWB 13	Iechyd Cyhoeddus Cymru
IWB 14	Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
IWB 15	Cymdeithas Ymgynghorwyr a Pheirianwyr Cymru
IWB 16	Ynni Morol Cymru
IWB 17	Grŵp Cymunedol Llanarthne a'r Cylch yn erbyn Peilonau
IWB 18	Ystad y Goron
IWB 19	ScottishPower Renewables

Cyfeirnod	Sefydliad
IWB 20	Comisiwn Dylunio Cymru
IWB 21	Network Rail
IWB 22	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru
IWB 23	Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol
IWB 24	Y Gymdeithas Cadwraeth Forol
IWB 25	Wales & West Utilities
IWB 26	RWE Renewables
IWB 27	RSPB Cymru
IWB 28	Lightsource bp
IWB 29	Dosbarthu Trydan y Grid Cenedlaethol
IWB 30	Ashfords LLP
IWB 31	EDF
IWB 32	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
IWB 33	Cyfoeth Naturiol Cymru
IWB 34	Unigolyn 34
IWB 35	Hannah Hickman, Prifysgol Gorllewin Lloegr
IWB 36	Bute Energy
IWB 37	Cyngor Sir Penfro
IWB 38	RenewableUK Cymru
IWB 39	Statkraft UK
IWB 40	Dŵr Cymru
IWB 41	SEUK
IWB 42	Ynni Glân
IWB 43	Porthladdoedd Cysylltiedig Prydain
IWB 44	Ymddiriedolaethau Natur Cymru
IWB 45	Cymorth Cynllunio Cymru
IWB 46	Kelvin MacDonald

Cyfeirnod	Sefydliad
IWB 47	Trafnidiaeth Cymru
IWB 48	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
IWB 49	Cymdeithas Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol